

**YR ADRAN ADDYSG A PHLANT**

## **ADRODDIAD YMGYNGHORI**

Cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn

**Ysgol y Ddwylan, Ysgol Griffith Jones, Ysgol**

**Llangynnwr ac Ysgol Llys Hywel**

*Ein Gweledigaeth....Cymuned yw Sir Gaerfyrddin lle mae'r plant yn ddiogel ac yn cael eu meithrin, a lle rhoddir cefnogaeth i ddysgwyr o bob oedran gyflawni eu potensial addysgol llawn*

**Medi 2019**

**Gareth Morgans**

**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant**



**EICH CYNGOR arleinamdani**  
[www.sirgar.llyw.cymru](http://www.sirgar.llyw.cymru)

**YOUR COUNCIL doitonline**  
[www.carmarthenshire.gov.wales](http://www.carmarthenshire.gov.wales)

**Yr Adain Moderneiddio Ysgolion**

**Sara Griffiths**, Rheolwr y Tîm Moderneiddio

## Cynnwys

Rhif	Pwnc	Tudalen
1	<b>Rhagarweiniad</b>	4
2	<b>Ysgol y Ddwylan</b> - Crynodeb Gweithredol	5
2.1	Crynodeb o'r ymatebion ddaeth i law ac ymatebion cysylltiedig â'r Awdurdod Lleol	8
2.2	Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig	38
2.3	Ymateb yr Awdurdod Lleol i sylwadau Estyn	40
2.4	Ymgynghori â Disgyblion	41
3	<b>Ysgol Griffith Jones</b> - Crynodeb Gweithredol	43
3.1	Crynodeb o'r ymatebion ddaeth i law ac ymatebion cysylltiedig â'r Awdurdod Lleol	46
3.2	Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig	59
3.3	Ymateb yr Awdurdod Lleol i sylwadau Estyn	61
3.4	Ymgynghori â Disgyblion	62
4	<b>Ysgol Llangynnwr</b> - Crynodeb Gweithredol	64
4.1	Crynodeb o'r ymatebion ddaeth i law ac ymatebion cysylltiedig â'r Awdurdod Lleol	67
4.2	Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig	84
4.3	Ymateb yr Awdurdod Lleol i sylwadau Estyn	86
4.4	Ymgynghori â Disgyblion	87
5	<b>Ysgol Llys Hywel</b> - Crynodeb Gweithredol	89
5.1	Crynodeb o'r ymatebion ddaeth i law ac ymatebion cysylltiedig â'r Awdurdod Lleol	92
5.2	Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig	114
5.3	Ymateb yr Awdurdod Lleol i sylwadau Estyn	116
5.4	Ymgynghori â Disgyblion	117

# 1. Rhagarweiniad

Yn dilyn cymeradwyaeth y Bwrdd Gweithredol ar 13 Mai 2019, cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin ar 20 Mai 2019 gynigion i newid natur darpariaeth y cyfnod sylfaen yn:

- Ysgol y Ddwylan;
- Ysgol Griffith Jones;
- Ysgol Llangynnwr; ac
- Ysgol Llys Hywel.

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 30 Mehefin 2019 ac mae'r adroddiad hwn yn crynhoi: yr ymatebion a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori; ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin i'r sylwadau hynny; ymateb Estyn i'r cynnig ac ymateb y disgyblion.

Er bod yr adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion ar gyfer pob cynnig, rhaid nodi y dylid ystyried y pedwar cynnig **ar wahân**.

## 2. Crynodeb Gweithredol - Ysgol y Ddwylan

### Y Cyfnod Ymgynghori

Ar 20 Mai 2019 cyhoeddwyd cynigion gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Ddwylan, yng nghymuned Castellnewydd Emlyn. Cynnig y Cyngor Sir yw:

- Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 20 Mai 2019, yr un pryd â chyhoeddi'r cynigion, a daeth i ben ar 30 Mehefin 2019. Daeth 61 o ymatebion i law (ac eithrio'r ymatebion gafwyd gan Estyn a thrwy'r ymgynghoriad â disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law		
Arolwg ar-lein	E-bost	Cyfanswm
59	2	61

Rhaid nodi bod pob un o'r 61 o ymatebion a gafwyd wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

### Yr Ymatebion a Ddaeth i Law

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei lunio mewn ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â Pholisiâu Llywodraeth Cymru. Bydd y cynnig i symud Ysgol y Ddwylan ar hyd y continwrm iaith Gymraeg yn helpu'r awdurdod i gyflawni ei weledigaeth o Sir Gâr ddwyieithog ac i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er cyflawnder, mae'r ymatebion hyn wedi eu cynnwys hefyd yn yr adroddiad hwn ac mae themâu'r holl sylwadau ddaeth i law fel a ganlyn:

### **Cefnogol**

- Thema 1 – Dwyieithrwydd
- Thema 2 – Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a helpu i gynnal yr iaith Gymraeg

- Thema 3 – Mae'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru
- Thema 4 – Ystyried datblygiad ieithyddol pellach ar hyd y Sector Addysg
- Thema 5 – Trochi
- Thema 6 – Dim rheswm

### **Pryderon**

- Thema 1 – Gwaredu'r Dewis
- Thema 2 – Cyfleoedd Addysg y Disgyblion a'u Cyfleoedd Bywyd Diweddarach
- Thema 3 – Y Broses Ymgynghori / Camliwio Data
- Thema 4 – Mae'r Sefyllfa Bresennol yn Llwyddiannus
- Thema 5 – Gorfodi'r Gymraeg
- Thema 6 – Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
- Thema 7 – Gwahaniaethu ac Eithrio
- Thema 8 – Y Gymuned
- Thema 9 – Ymdopi â'r Gymraeg
- Thema 10 – Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn
- Thema 11 – Trafnidiaeth a Theithio i Ysgolion Eraill
- Thema 12 – Polisiâu Llywodraeth Cymru / Cyngor Sir Caerfyrddin / Arbed Arian
- Thema 13 – Disgyblion o'r Tu Mewn a'r Tu Allan i'r Dalgylch
- Thema 14 – Trosglwyddo i Ysgolion Cyfrwng Saesneg
- Thema 15 – Dim rheswm

Caiff y 61 o ymatebwyr eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Rhiant (39)
- Aelod o Staff (5)
- Llywodraethwr Ysgol (3)
- Tad-cu neu Fam-gu (4)
- Arall (10)

### **Crynodeb Cyffredinol**

Cefnogol	41%	Ddim yn gefnogol	59%
----------	-----	------------------	-----

### **Gweithdai**

Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad ar 30 Mehefin 2019, cynhaliwyd gweithdai i ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law.

## **Digwyddiad Ymgynghori**

Cynhaliwyd sesiwn galw heibio yn Ysgol y Ddwylan ar 5 Mehefin 2019 rhwng 5pm a 7pm i roi cyfle i staff, rhieni, a rhanddeiliaid ofyn cwestiynau a thrafod y cynnig.

Aeth 10 o rhanddeiliaid i'r sesiwn galw heibio, a chânt eu categoreiddio fel a ganlyn:

Categori	Nifer
Staff Ysgol y Ddwylan	2
Pennaeth Ysgol Uwchradd	1
Menter Gorllewin Sir Gâr	2
Rhieni	4
Cynghorydd (Tref a Lleol)	1

## **Y Camau Nesaf**

Caiff yr Adroddiad Ymgynghori ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant i gael sylwadau ac argymhelliad, ac wedyn yn y pen draw i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig a chyhoeddi hysbysiad statudol. Os bydd y Bwrdd Gweithredol yn penderfynu bwrw ymlaen i'r cam nesaf, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi yn ystod Tymor yr Hydref 2019.

## 2.1 Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lle

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
<b>Sylwadau Cefnogol a Gafwyd</b>				
1.	<p><b><u>Dwyieithrwydd</u></b></p> <p>Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion ddod yn ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddatblygu dwyieithrwydd yn y gymuned.</p> <p>Mae dwyieithrwydd yn cynnig llawer o fanteision i'r holl ddisgyblion ac ni ddylid ystyried dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn anfantais. Dylai pob disgybl gael cyfle i elwa ar yr holl fanteision sydd ynghlwm wrth fod yn ddwyieithog.</p>	<p>Barn yr Awdurdod Lleol, ar sail tystiolaeth ryngwladol a phrofiad lleol, yw bod plant yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwytio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg ddwyieithog y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bydd dwyieithrwydd yn sgil mwyfwy pwysig</p>	2	3%



		<p>yn y byd gwaith gydag amser. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p> <p>Cafodd y gefnogaeth ei nodi.</p>		
2.	<p><b><u>Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a helpu i gynnal yr iaith Gymraeg</u></b></p> <p>Bydd y cynnig yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned ac yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p>	<p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddyn nhw fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd. Mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i bawb yn y gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.</p> <p>Cafodd y gefnogaeth ei nodi.</p>	2	3%

3.	<p><b><u>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru</u></b></p> <p>Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol a nod Llywodraeth Cymru "Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg", mae'r cynnig yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â pholisïau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg. Mae'r cynnig yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyrraedd ei nod o gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo'r cynnig presennol ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal gan ei fod yn barnu'n bendant taw hyn sydd orau o ran addysg y plant. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb hefyd i ddilyn ei bolisïau ei hun ochr yn ochr â pholisïau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd</p>	2	3%
----	--	---	---	----

		<p>21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg. Mae'r holl argymhellion a champau gweithredu perthnasol yn y strategaeth wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Ar 25 Mehefin 2018, lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin, sy'n ceisio cyflawni'r deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 2 – Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;</li> <li>• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a</li> <li>• Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.</li> </ul> <p>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun</p>		
--	--	---	--	--

		<p>Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Cafodd y gefnogaeth ei nodi.</p>		
4.	<p><b><u>Ystyried datblygiad ieithyddol pellach ar hyd y Sector Addysg</u></b></p> <p>Cydnabuwyd bod y cynnig yn symud yr ysgol ar hyd y continwwm iaith, ond mae angen rhoi ystyriaeth i ddatblygiad ieithyddol pellach ym mhob maes o'r sector addysg.</p>	<p>Ar 25 Mehefin 2018, yn unol â Chynllun Strategol Llywodraeth Cymru, lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a'i weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i <b>bob</b> ysgol yn y sir symud ar hyd y continwwm iaith ac mae'n nodi'r amcanion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod pob disgybl yn hollol ddwyieithog (ac amlieithog) pan fyddant yn gadael yr ysgol fel bod ganddynt y sgiliau i weithredu fel dinasyddion dwyieithog yn eu cymunedau, yn y gweithle a thu hwnt/ar draws y byd;</li> <li>• Darparu gwasanaethau a fydd yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu o safon uchel gan holl blant, pobl ifanc ac oedolion Sir Gaerfyrddin, a thrwy hynny eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn fel dysgwyr gydol oes</li> </ul>	2	3%

		<p>yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw y sir;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau cynnydd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol i addysg gynradd ac uwchradd ddwyieithog;</li> <li>• Sicrhau cynnydd ieithyddol ar draws meysydd cwricwlaidd wrth drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3, o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4 a hyrwyddo cynnydd ieithyddol o Gyfnod Allweddol 4 i ddysgu gydol oes; a</li> <li>• Gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl ddarparwyr i wella safon y Gymraeg yn yr amgylchedd dysgu.</li> </ul>		
5.	<p><b><u>Trochi</u></b> Mae'n glir bod dysgu Cymraeg fel ail iaith yn aneffeithiol o ran creu unigolion dwyieithog. Y ffordd orau o greu pobl ifanc ddwyieithog sy'n hyderus yn darllen, yn ysgrifennu, ac yn siarad yn Gymraeg a Saesneg yw drwy eu trochi.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y dystiolaeth ryngwladol, fel a ddyfynnir gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin tra'n datblygu hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd di-Gymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith.</p>	1	2%

		Cafodd y gefnogaeth ei nodi.		
6.	<b><u>Dim rheswm</u></b> Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu cefnogaeth.		0.5	1%
<b>Pryderon a Godwyd</b>				
1.	<b><u>Gwaredu'r Dewis</u></b> Mae pryderon am waredu'r gallu i ddewis addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol. Credir y dylai rhieni allu dewis ym mha iaith yr addysgir eu plant ynddi.	Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.  Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg	13	21%

		<p>yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg.</p> <p>Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Medi 2018, fe lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 2 - Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt</li> </ul>		
--	--	---	--	--

		<p>symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a</li> <li>• Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.</li> </ul> <p>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Mae dewis yn fater pwysig wrth ystyried y cynnig hwn, a'r elfen bwysicaf ohono yw'r dewis sydd ar gael i blant wrth iddynt fynd yn eu blaen drwy eu haddysg a'u bywydau cynnar. Mae'r cynnig hwn yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion fod yn gwbl ddwyieithog gyda'r sgiliau i ddarllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Mae cynnig yr Awdurdod Lleol i ddatblygu plant sy'n ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd yn rhoi dewis i blant wrth iddynt symud ar hyd y sector addysg. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu plant</p>		
--	--	---	--	--



		<p>ddwyieithog yn y sector cynradd yw eu trochi mewn addysg cyfrwng Cymraeg. At ei gilydd caiff ei dderbyn yn y proffesiwn addysg nad yw astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn datblygu pobl ifanc gwir ddwyieithog, ac mae'r ysgol wedi'i chlustnodi'n un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith.</p>		
2.	<p><b><u>Cyfleoedd Addysg y Disgyblion a'u Cyfleoedd Bywyd Diweddarach</u></b></p> <p>Credir y bydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael effaith andwyol ar addysg disgyblion a'u sgiliau iaith Saesneg, ac yn gosod plant dan anfantais o ran cael addysg bellach neu addysg uwch, ac yn ddiweddarach mewn bywyd pan fyddant yn gwneud cais am swyddi ac ati. Credir na fydd yr holl ddisgyblion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn drwy ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid nodi mai'r iaith fwyaf cyffredin a ddefnyddir o ddydd i ddydd, yn y byd gwaith a'r byd busnes, yw Saesneg, ac felly mae'n rhaid i ddisgyblion feddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r iaith Saesneg er mwyn sicrhau eu bod mor</p>	<p>Barn yr Awdurdod Lleol, ar sail tystiolaeth ryngwladol ac ymchwil a phrofiad lleol, yw bod plant yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwytio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol.</p> <p>Ar gyfartaledd, noda'r Awdurdod Lleol fod plant dwyieithog yn ennill graddau uwch ym mhwnc Saesneg iaith. Dylid nodi hefyd, ar gyfartaledd, fod 80% o ddisgyblion Sir</p>	12	20%

	<p>llwyddiannus â phosibl yn y byd go iawn.</p>	<p>Gaerfyrddin sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn ennill graddau A*-C yn yr iaith Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgil mwyfwy pwysig yn y byd gwaith. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p> <p>Mae ysgolion yn rhoi'r sgiliau i bobl ifanc fynychu prifysgolion ym mhedwar ban byd, ac ni ddylid ystyried y Gymraeg yn anfantais. Yn hytrach na bod yn rhwystr, mae nifer o brifysgolion, yng Nghymru a'r tu hwnt, yn ystyried bod meddu ar sgiliau Cymraeg yn sgil ychwanegol sy'n gallu bod yn fanteisiol pan fydd person ifanc yn cystadlu am le i astudio.</p>		
3.	<p><b><u>Y Broses Ymgynghori</u></b></p> <p><u>Ymgynghori</u></p>	<p>Mae'r broses ymgynghori wedi cael ei chynnal yn unol â Chôd Trefniadaeth</p>	9	15%

	<p>Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd digon o gyhoeddusrwydd wedi cael ei roi i'r ymgynghoriad ac y dylai fod wedi bod yn fwy hygyrch.</p> <p><u>Camliwio Data</u></p>	<p>Ysgolion statudol 2018 ac mae'r holl randdeiliaid gofynnol wedi cael eu hysbysu ac fe ymgynghorwyd â nhw.</p> <p>Cyn yr ymgynghoriad ffurfiol, cynhaliwyd sesiwn galw heibio yn yr ysgol ac yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd sesiwn galw heibio arall er mwyn i randdeiliaid drafod y cynnig. Rhaid nodi nad yw'r arfer hwn yn un o ofynion statudol y Côt Trefniadaeth Ysgolion ond caiff ei ystyried yn arfer da gan Gyngor Sir Caerfyrddin.</p> <p>Cafodd y cyfnod ymgynghori ei gynnal rhwng 20 Mai a 30 Mehefin 2019, a'i gyhoeddi'n eang drwy wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'r cyfryngau cymdeithasol, a rhoddwyd sylw iddo yn y cyfryngau lleol. Roedd modd i ymgynghoreion ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein, e-bost neu lythyr.</p> <p>Mae'r holl ddata a gwybodaeth yn y Ddogfen Ymgynghorol yn gywir ac wedi'i seilio ar Ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynnyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Cafodd gwybodaeth ynghylch y trefniadau ieithyddol presennol yn yr ysgol eu cynnwys yn y ddogfen ac roedd yr holl ddata o ran y cynnig yn gywir. Mae'r holl ddata a</p>		
--	---	---	--	--

	Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y data a'r wybodaeth oedd yn y Ddogfen Ymgynghorol yn anghywir a'u bod yn gamliwiad bwriadol er mwyn camarwain rhanddeiliaid.	gynhwysir yn y Ddogfen Ymgynghorol wedi ei nodi fel gofyniad yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018.		
4.	<p><b><u>Mae'r Sefyllfa Bresennol yn Llwyddiannus</u></b></p> <p>Mae'r trefniadau ieithyddol presennol yn yr ysgol yn gweithio'n dda ac nid oes angen newid.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod yr ysgol yn perfformio'n dda ac yn llwyddiannus. Mae'r cynnig hwn yn ceisio gwella ymhellach gyfleoedd i'r plant sy'n mynychu'r ysgol sicrhau canlyniadau sy'n gwella'n barhaus. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth.</p>	8	13%

		<p>Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg.</p> <p>Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Medi 2018, fe lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 2 - Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt</li> </ul>		
--	--	---	--	--

		<p>symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a</li> <li>• Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.</li> </ul> <p>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Mae'n bwysig nodi bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn mynnu bod holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg, yn symud ar hyd y continwwm iaith, gan ddal i gynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar sicrhau ymhen amser y bydd yr holl blant yn ddwyieithog pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol gynradd.</p> <p>Bydd pa mor gyflym y gall ysgolion ehangu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar amgylchiadau</p>		
--	--	--	--	--

		lleol ond mae'r disgwyl am gynnydd yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r ysgol wedi'i chlustnodi fel un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith.		
5.	<p><b><u>Gorfodi'r iaith Gymraeg</u></b></p> <p>Dylai'r gymuned gael dewis pa un ai i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac ni ddylid gorfodi'r Gymraeg ar neb. Mae'n bwysig dysgu'r iaith Gymraeg ac efallai y bydd rhai disgyblion am ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, ni fydd pob disgybl am dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fydd gorfodi'r Gymraeg yn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, a dweud y gwir, i'r gwrthwyneb. Bydd gweithredu'r cynnig yn gorfodi disgyblion i geisio addysg cyfrwng Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eraill, a fydd yn golygu na ddaw'r disgyblion i gysylltiad â'r Gymraeg.</p>	<p>Mae'r cynnig yn gyson â'r polisi cenedlaethol i helaethu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog, ac er mwyn galluogi rhagor o blant i elwa ar fanteision dwyieithrwydd - a gadarnheir gan waith ymchwil rhyngwladol.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu ysgol y pentref.</p> <p>Mae'n bwysig cofio bod yr iaith Saesneg yn dal i gael ei haddysgu a'i datblygu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hyd at y</p>	6	10%

		<p>safonau uchaf, fel rhan statudol o'r cwricwlwm.</p> <p>Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel a ddyfynnir gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin yn ogystal â datblygu hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd di-Gymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith.</p>		
6.	<p><b><u>Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)</u></b> Efallai na fydd plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gallu ymdopi â dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac y bydd angen addysg cyfrwng Saesneg arnynt o bosibl. Mae'n annheg cymryd yn ganiataol y bydd pob plentyn sydd ag AAA/ADY yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd.</p> <p>O ran y cynnig hwn, bydd y gefnogaeth a roddir yn yr ysgolion i'r plant presennol sydd ag anghenion ychwanegol yn parhau drwy gyfrwng yr iaith y maent yn cael eu haddysg ynddi ar hyn o bryd. Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd holl ddisgyblion y dyfodol yn cael cefnogaeth wedi'i theilwra i'w hanghenion.</p>	6	10%



		<p>Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystro ran dysgu dwy iaith. Mae'n bwysig asesu a monitro'r cynnydd ym mhob iaith y mae plentyn yn ei defnyddio neu'n ei dysgu, gan gynnwys y systemau arwyddion a chyfathrebu â chymorth gweledol sy'n ofynnol ar gyfer rhai disgyblion, yn enwedig gan fod modd defnyddio'r iaith sydd wedi'i datblygu gryfaf i gefnogi a hybu dysgu drwy gyfrwng yr iaith nad yw wedi'i datblygu mor gryf. Mae'n ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol i'r iaith ddysgu ac ymateb, er mwyn gallu darparu ar gyfer anghenion ychwanegol ac er mwyn sicrhau bod mynediad i'r cwricwlwm a bod cynnydd o ran y dysgu. Ar brydiau gall fod yn briodol i'r staff dargedu cymorth ychwanegol drwy un iaith am gyfnod i gyfnerthu a chyflymu'r dysgu, e.e. o ran llythrennedd. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r</p>		
--	--	--	--	--

		<p>plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni.</p> <p>Er bod y gyfundrefn wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr drwy ymagwedd gyffredinol a chynhwysol, yn achos nifer bychan o blant sydd ag anghenion ychwanegol cymhleth a sylweddol nid yw hynny'n bosibl bob amser ac mae darpariaeth arbenigol yn cynnig lleoliadau dysgu mwy priodol.</p> <p>Er mwyn gallu sicrhau y caiff anghenion yr holl ddysgwyr eu diwallu, mae'r gyfundrefn ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys darpariaeth helaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol. Cynigir addysg mewn ysgol neu uned arbenigol i'r plant sydd â'r anghenion mwyaf difrifol neu gymhleth pan na fo lleoliad priif ffrwd yn addas i'w hanghenion neu pan fo'n well gan y rhieni lleoliad arall. Mae gan rai ysgolion uwchradd a chynradd ledled y sir unedau arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion penodol, megis awtistiaeth, namau synhwyrdd, neu oedi o ran lleferydd ac iaith. Mae'r Adran Addysg a Phlant yn darparu cymorth ychwanegol penodol yn yr ysgolion, lle bo modd, fel</p>		
--	--	--	--	--

		<p>bod cynifer o blant â phosibl yn aros yn eu hysgol leol. Er ei bod yn well gan y Cyngor ddiwallu anghenion yr holl blant mewn ysgol brif ffrwd pryd bynnag y bo modd, nid yw hyn yn ymarferol bob amser.</p> <p>Ym mhrofiad y Cyngor hwn mae'r mwyafrif llethol o'r disgyblion hynny sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n amrywio o ran eu gallu, yn llwyddo yn ein hysgolion ni waeth beth fo iaith y dysgu ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod yna, mewn rhai achosion prin iawn, blant na ellir diwallu eu hanghenion heblaw trwy ddarpariaeth mewn uned arbenigol.</p>		
7.	<p><b><u>Gwahaniaethu ac Eithrio</u></b></p> <p>Credir bod y cynnig yn gwahaniaethu ac yn gwahanu teuluoedd di-Gymraeg/Saesneg eu hiaith sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Saesneg. Os caiff y cynnig ei weithredu, gellid gorfodir disgyblion i geisio addysg cyfrwng Saesneg yn rhywle arall, a thrwy hynny eu heithrio ymhellach o'u cymuned leol.</p>	<p>Nid yw'n fwriad gan y cynnig hwn i wahaniaethu yn erbyn teuluoedd di-Gymraeg/Saesneg eu hiaith nac i eithrio unrhyw aelodau o'r gymuned o'u cymuned leol eu hunain mewn unrhyw ffordd. I'r gwrthwyneb, mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i'r holl blant fod yn gwbl ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael ysgol gynradd.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol</p>	4	7%

		<p>ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r iaith bresennol. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw newid yn achos disgyblion presennol sy'n mynychu'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.</p> <p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddyn nhw fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd. Mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i bob disgybl/rhiant a phawb yn y gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.</p>		
8.	<p><b><u>Y Gymuned</u></b></p> <p>Mae'r cynnig yn anghyson â chyfansoddiad y gymuned ac ni fydd yn darparu ar gyfer anghenion y gymuned gyfan.</p> <p>Credir y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar y gymuned gan y bydd teuluoedd yn symud o'r ardal er</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod rhai aelodau o'r gymuned yn methu siarad Cymraeg a bod llawer o'r plant sy'n mynychu'r ysgol yn dod o gefndiroedd di-Gymraeg/Saesneg. Felly mae'n bwysig bod yr Awdurdod Lleol yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael er mwyn hyrwyddo dwyieithrwydd yn yr ardal ac er mwyn</p>	4	7%

	<p>mwyn ceisio addysg cyfrwng Saesneg yn rhywle arall. Yn ogystal, gallai darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn unig olygu y bydd llai o bobl yn symud i'r ardal gan y bydd y ddarpariaeth addysg yn anaddas. Bydd hyn yn arwain at effaith negyddol ar yr economi yn yr ardal leol.</p>	<p>sicrhau bod pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddyn nhw fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod cymunedau'n newid gyda threigl amser a bod symudedd cymdeithasol yn dal i gynyddu. Mae'r Awdurdod Lleol Sir yn ystyried bod y pwynt hwn yn cyfnerthu'r angen am wreiddio addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cynifer o gymunedau â phosibl er mwyn cryfhau'r iaith ac er mwyn sicrhau bod cynifer o blant â phosibl yn cael cyfle i ymddatblygu'n ddinasyddion gwirioneddol ddwyieithog ac yn elwa ar y manteision personol a ddaw yn sgil dwyieithrwydd.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r</p>		
--	--	---	--	--

		<p>trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.</p> <p>Anodd yw rhagweld yr effaith gaiff y cynnig ar nifer y teuluoedd sy'n symud i'r ardal. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol yn gobeithio y byddant yn deall y buddion sydd ynghlwm wrth addysg cyfrwng Cymraeg a'r cyfleoedd a'r manteision y gall eu darparu. Bydd y cynnig hwn yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion yn y dyfodol ddod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd ac elwa ar y manteision hyn drwy gydol eu bywydau.</p> <p>Yn ogystal mae'r Awdurdod Lleol yn gobeithio y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol drwy roi cyfle i aelodau'r gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgil mwyfwy pwysig yn y</p>		
--	--	--	--	--

		<p>byd gwaith. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p>		
9.	<p><b><u>Ymdopi â'r Gymraeg</u></b> Mynegwyd pryder na fyddai'r holl blant yn gallu ymdopi â dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg. Hefyd mae pryderon y bydd rhieni di-Gymraeg yn ei chael yn anodd cefnogi a helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol a'u gwaith cartref pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.</p>	<p>Bydd yr ysgol yn dal i ddarparu cefnogaeth i'r disgyblion presennol drwy gyfrwng yr iaith y maent yn cael eu haddysg drwyddi ar hyn o bryd. Os gweithredir y cynnig rhoddir digon o gefnogaeth i'r holl ddisgyblion newydd, yn ôl anghenion pob unigolyn. Hefyd mae'n bwysig nodi ei bod yn ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol pan fo'r angen i ddiwallu anghenion pob disgybl. Yn ogystal bydd "Athrawon Bro" sy'n rhoi cefnogaeth i ysgolion ledled y sir yn cefnogi'r ysgol. Bydd Canolfannau Trochi yn yr iaith Gymraeg hefyd ar gael i'r disgyblion hynny y gallai fod angen mewnbwn ychwanegol arnynt yn ieithyddol.</p>	4	7%

		<p>Ar hyn o bryd mae'r ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gymorth i'r disgyblion a'r rhieni o deuluoedd di-Gymraeg, ac maent wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth fel bo'r angen er mwyn diwallu anghenion teuluoedd unigol yn y dyfodol.</p> <p>Mae sawl sefydliad a ddaeth i'r sesiwn galw heibio ffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi cynnig cefnogaeth a chymorth i'r gymuned o ran datblygu'r iaith Gymraeg.</p>		
10.	<p><b><u>Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn</u></b> Codwyd pryderon na fydd rhieni'n gallu chwarae rhan actif yn addysg y plentyn.</p>	<p>Mae ysgolion Cymraeg yn nodi cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly fydd dim trafferth gennych chi o ran deall pa waith sy'n rhaid i'r plant ei wneud. Bydd gwaith yn cael ei osod yn addas i lefel a gallu'r disgybl. Fe ddylai, felly, fod o fewn cyrraedd eich plentyn. Wrth i blant dyfu'n hŷn a datblygu'n ddysgwyr annibynnol, efallai y bydd y rhieni yn gweld eu bod yn hapus i fwrw ati heb arweiniad ychwanegol ganddynt hwy.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o gymorth i'r disgyblion a'r rhieni o deuluoedd di-Gymraeg, ac maent wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth</p>	4	7%



		fel bo'r angen er mwyn diwallu anghenion y teuluoedd yn y dyfodol.		
11.	<p><b><u>Trafnidiaeth a Theithio i Ysgolion Eraill</u></b></p> <p>Mae'n annheg disgwyl i rieni gludo disgyblion i ysgolion eraill er mwyn cael addysg drwy gyfrwng y Saesneg. Bydd hyn yn cael effaith ariannol ar deuluoedd ac yn cymryd mwy o amser.</p>	<p>Gan na fydd dim newidiadau yn achos disgyblion presennol yr ysgolion, o ganlyniad ni fydd angen i unrhyw blentyn gael ei symud o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod holl ddisgyblion y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.</p> <p>Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion cyfrwng Saesneg eraill fel rhan o'r cynnig. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill, byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys goblygiadau o ran cludiant. Os bydd unrhyw rieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill nad ydyn nhw'n ysgol ddynodedig nac yn ysgol agosaf, cyfrifoldeb llawn y rhieni fydd cludo eu plant i'r ysgol.</p>	3	5%
12.	<p><b><u>Polisiau Llywodraeth Cymru / Cyngor Sir Caerfyrddin / Arbed Arian</u></b></p> <p>Mae rhai ymatebwyr o'r farn nad yw dilyn polisiau'r Cyngor Sir a'r Llywodraeth megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn rheswm</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo'r cynnig presennol ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal gan ei fod yn barnu'n bendant taw hyn sydd orau o ran addysg y plant. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb hefyd i ddilyn ei bolisiau ei hun</p>	3	5%

	<p>digon da dros gymeradwyo a gweithredu'r cynnig gan na fydd yn fuddiol yn y tymor hir. Bernir nad oes unrhyw bwrpas gan y polisiâu hyn na chyfiawnhad drostynt, ac mai'r unig beth maent yn ei wneud yw gwthio agenda'r Gymraeg a gwastraffu arian.</p>	<p>ochr yn ochr â pholisiau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Mae cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, i ymateb i'r Ddeddf ac i Strategaeth Llywodraeth Cymru ynghylch Addysg drwy Gyfrwng y Gymraeg, ac mae pob awdurdod yn atebol yn unigol i Lywodraeth Cymru. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg;</li> </ul>		
--	---	---	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 2 - Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;</li> <li>• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a</li> <li>• Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.</li> </ul> <p>Os na fydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio cael y canlyniadau penodol fel y manylir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ni fyddai'n cyrraedd ei nod o wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg yn ôl argymhellion Llywodraeth Cymru.</p>		
13.	<p><b><u>Disgyblion o'r Tu Mewn a'r Tu Allan i'r Dalgylch</u></b></p> <p>Ceir pryderon ynghylch nifer y disgyblion sy'n teithio o'r tu allan i'r ardal/dalgylch i gael addysg yn yr ysgol. Os caiff y cynnig ei weithredu, bydd mynediad y disgyblion at</p>	<p>Mae'n gyffredin i ddisgyblion symud rhwng dalgylchoedd ysgolion a hynny ledled y wlad mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Mae plant sy'n byw yn y dalgylch yn cael blaenoriaeth o ran mynychu ysgolion eu dalgylch dros blant sy'n byw y tu allan i'r dalgylch. Fodd</p>	3	5%

	<p>ddarpariaeth addysg o'u dewis yn gyfyngedig.</p>	<p>bynag, gall rhieni nodi eu bod yn ffafrio ysgol heblaw ysgol ddynodedig y dalgylch, ac maent yn gwneud hyn am nifer o resymau, e.e. bod rhieni sy'n gweithio yn gallu cael cymorth gan eu teulu estynedig, hwylustod cludo plant, bod yr ysgol yn agos i'r cartref, enw da, darpariaeth, ffydd, ac yn y blaen. Pan fydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgol arbennig, byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys natur y ddarpariaeth.</p> <p>Fodd bynnag, bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.</p>		
--	---	--	--	--

14.	<p><b><u>Trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Saesneg</u></b></p> <p>Mae'n annheg bod disgyblion sy'n dymuno/sydd angen addysg cyfrwng Saesneg yn gorfod trosglwyddo i ysgol arall y tu allan i'w dalgylch. Hefyd, teimlir bydd yn rhaid i ddisgyblion sy'n cael anhawster â'r iaith Gymraeg drosglwyddo i ysgol arall.</p>	<p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol. Darperir cymorth digonol i holl ddisgyblion y dyfodol, yn unol ag anghenion yr unigolyn.</p> <p>Gweler <b>pwyt 9</b> sy'n cyfeirio at y cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ac a fydd yn dal i gael eu darparu i'r holl ddisgyblion a rhieni o ran yr iaith Gymraeg.</p> <p>Gweler <b>pwyt 6</b> sy'n cyfeirio at ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion addysgol arbennig, a'r cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu i'r disgyblion ac a fydd yn dal i gael eu darparu iddynt.</p>	1	2%
-----	---	---	---	----

15.	<b><u>Dim rheswm</u></b> Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu gwrthwynebiad.		0.5	1%
-----	---	--	-----	----

## 2.2 Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan ymgynghoriad Cyngor Sir Caerfyrddin i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn Ysgol y Ddwylan.**

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Côt cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag nid yw Estyn yn gorff y mae rheidwydd arno i gydymffurfio â'r Côt, ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn rhoi ei farn.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth ddarparwyd gan y cynigydd.

### Cyflwyniad

Dyma gynnis ymgynghorol gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Y cynnig yw:

- **newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn Ysgol y Ddwylan.**

### Crynodeb/Casgliadau

Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl mewn Cymraeg a Saesneg ac sydd â'r gallu i ddefnyddio'u hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Mae'r cynigydd yn nodi hefyd fod hyn yn cydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'.

O ganlyniad, mae'r cynigydd yn nodi'n glir y bydd natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Ddwylan yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg o 1 Medi 2020.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol yr addysg a'r ddarpariaeth a geir yn yr ardal o leiaf.

### Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigydd wedi gosod sail resymegol glir dros y manteision disgwylidig a fwriedir, sef y bydd newid i addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn cryfhau sgiliau dwyieithog y disgyblion o oedran cynnar, gan osod sylfaen

gadarn iddynt er mwyn datblygu eu gallu ieithyddol yn y dyfodol. Mae'r cynigydd yn datgan yn ddilys bod nifer y disgyblion sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Ddwylan gryn dipyn yn is na'r rheiny sy'n mynychu ffrwd Gymraeg y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r cynigydd yn nodi manteision ychwanegol priodol y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfle i ddisgyblion gael eu trochi'n gynnar y Gymraeg o oedran ifanc, sy'n caniatáu i ddisgyblion ennill sylfaen gadarn yn y Gymraeg. At hynny, mae'r cynigydd yn nodi'n glir y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn darparu sgiliau ieithyddol uwch i ddisgyblion i'w datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae'r cynigydd yn cyfleu ymhellach y bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Mae'r cynigydd wedi nodi'n briodol anfanteision y cynnig presennol, sy'n canolbwyntio ar wrthwynebiad posibl gan y gymuned leol i'r cynnig yn ogystal â'r broses statudol sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r cynnig. Mae'r cynigydd yn nodi pryderon pwysig megis y gostyngiad presennol yn nifer y disgyblion a dderbynnir yn Ysgol y Ddwylan ac Ysgol Gyfun Emlyn oherwydd bod nifer o ddisgyblion yn dewis yr ysgol cyfrwng Cymraeg 3-19 oed gyfagos. Fodd bynnag, mae'r cynigydd yn datgan yn glir y byddai cryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Ddwylan yn cefnogi'r diwylliant cyfrwng Cymraeg sy'n datblygu yn Ysgol Emlyn, yn unol â nodau Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.

Mae'r cynigydd yn cadarnhau na fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg uwchradd nac unrhyw newid i ddalgylch presennol yr ysgol.

### **Agweddau addysgol y cynnig:**

Mae'r cynigydd yn cyfeirio'n briodol at ganlyniadau arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol. Mae'n nodi'n gywir bod perfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon am welliant wedi'u barnu i fod yn ddigonol adeg yr arolygiad craidd. Mae'r cynigydd hefyd yn cyfeirio'n fyr at gategori'r ysgol o fewn y System Genedlaethol ar gyfer Categoriiddio Ysgolion sydd yn y categori cymorth 'ambr' ar hyn o bryd.

Mae'n dod i gasgliad rhesymol nad yw'n rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd safonau addysg a lles disgyblion yn yr ysgol. Mae'r cynigydd yn datgan yn gryf y byddai cynyddu nifer y plant a phobl ifanc sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg yn sicrhau y byddant yn gallu



defnyddio eu hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

## 2.3 Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn

Dengys sylwadau Estyn ei fod o'r farn fod y cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safon addysg bresennol. Mae ei sylwadau'n cynnwys datganiadau cefnogi fel y nodir isod.

### **Datganiadau o gefnogaeth ar gyfer y cynnig hwn gan Estyn**

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i dri opsiwn ac wedi dewis y cynnig uchod.

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal safon bresennol yr addysg a'r ddarpariaeth a geir yn yr ardal o leiaf.

Mae'r cynigydd wedi gosod sail resymegol glir dros y manteision disgwylidig a fwriedir, sef y bydd newid i addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn cryfhau sgiliau dwyieithog y disgyblion o oedran cynnar, gan osod sylfaen gadarn iddynt er mwyn datblygu eu gallu ieithyddol yn y dyfodol.

Mae'r cynigydd yn cyfleu ymhellach y bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

## 2.4 Ymgynghori â'r Disgyblion

**Ysgol:** Ysgol y Ddwylan

**Dyddiad:** 27 Mehefin 2019

**Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan:** Mrs Catrin Griffiths – Rheolwr Datblygu  
Sgiliau Cymraeg

**Cyfwelwyd:** trawstoriad o 14 disgybl o flynyddoedd 2 i 6 o'r ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg.

### **Crynodeb**

Cynhaliwyd trafodaeth llawn gwybodaeth gyda'r disgyblion ynghylch y cynnig i newid natur darpariaeth Cyfnod Sylfaen yr ysgol a manteision ac anfanteision y cynnig. Gellir gweld crynodeb o'r drafodaeth hon isod.

### **Adborth y Disgyblion**

Roedd pob disgybl yn teimlo bod dysgu Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn llawer haws na dysgu Cymraeg yn ddiweddarach yn eu haddysg. Yn ystod y cyfnod hwn mewn addysg, teimlent fod plant yn amsugno'r iaith a'u bod 'wedi arfer â hi', yn hytrach na gorfod ei 'dysgu'.

Roedd y disgyblion yn teimlo bod llawer o fanteision i ddysgu Cymraeg gan mai dyma iaith y wlad lle rydym yn byw. Trafodwyd ein bod yn ffodus i gael ein hiaith ein hunain a bod gan bob gwlad arall heblaw am Loegr eu hiaith eu hunain.

Teimlent y dylai pob ysgol roi cyfle i ddisgyblion ddod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ac roeddent yn sylweddoli mai'r ffordd orau o wneud disgyblion yn ddwyieithog yw drwy ddysgu Cymraeg 'drwy'r amser' yn yr ysgol.

Teimlent y dylai pobl sy'n byw yng Nghymru '... wneud ymdrech' i siarad iaith y wlad a bod yn falch eu bod yn gallu ei siarad.

Buont yn trafod manteision gallu siarad Cymraeg wrth chwilio am swydd yng Nghymru a bod bod yn ddwyieithog yn gallu gwella eich hyder yn gyffredinol.

Trafodwyd gwaith cartref ac roeddent o'r farn bod rhieni yn ei weld fel problem am nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg. Fodd bynnag, dywedodd disgyblion eu bod yn gallu gofyn cwestiynau yn Saesneg a gwneud y gwaith

yn Gymraeg os oedd angen unrhyw help arnynt. Gallant hefyd ofyn i'r athrawon am gymorth os oes angen.

Roedd pob disgybl yn gytûn y dylid gweithredu'r cynnig.

### 3. Crynodeb Gweithredol - Ysgol Griffith Jones

#### Y Cyfnod Ymgynghori

Ar 20 Mai 2019 cyhoeddwyd cynigion gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol y Griffith Jones, yng nghymuned Sanclêr. Cynnig y Cyngor Sir yw:

- Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 20 Mai 2019, yr un pryd â chyhoeddi'r cynigion, a daeth i ben ar 30 Mehefin 2019. Daeth 9 o ymatebion i law (ac eithrio'r ymatebion gafwyd gan Estyn a thrwy'r ymgynghoriad â disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law		
Arolwg ar-lein	Llythyr	Cyfanswm
8	1	9

Rhaid nodi bod pob un o'r 9 o ymatebion a gafwyd wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

#### Yr Ymatebion a Ddaeth i Law

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei lunio mewn ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â Pholisïau Llywodraeth Cymru. Bydd y cynnig i symud Ysgol Griffiths Jones ar hyd y continwrm iaith Gymraeg yn helpu'r awdurdod i gyflawni ei weledigaeth o Sir Gâr ddwyieithog ac i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er cyflawnder, mae'r ymatebion hyn wedi eu cynnwys hefyd yn yr adroddiad hwn ac mae themâu'r holl sylwadau ddaeth i law fel a ganlyn:

#### **Cefnogol**

- Thema 1 - Dwyieithrwydd

- Thema 2 – Ystyried datblygiad ieithyddol pellach ar hyd y Sector Addysg

### **Pryderon**

- Thema 1 – Mae'r Sefyllfa Bresennol yn Llwyddiannus
- Thema 2 – Cyfleoedd Addysg y Disgyblion a'u Cyfleoedd Bywyd Diweddarach
- Thema 3 – Gwahaniaethu ac Eithrio
- Thema 4 – Materion gydag ysgolion eraill
- Thema 5 – Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn

Caiff y 9 o ymatebwyr eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Rhiant (6)
- Tad-cu neu Fam-gu (1)
- Arall (2)

### **Crynodeb Cyffredinol**

Cefnogol	67%	Ddim yn gefnogol	33%
----------	-----	------------------	-----

### **Gweithdai**

Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad ar 30 Mehefin 2019, cynhaliwyd gweithdai i ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law.

### **Digwyddiad Ymgynghori**

Cynhaliwyd sesiwn galw heibio yn Ysgol Griffith Jones ar 6 Mehefin 2019 rhwng 5pm a 7pm i roi cyfle i staff, rhieni, a rhanddeiliaid ofyn cwestiynau a thrafod y cynnig.

Aeth 7 o randdeiliaid i'r sesiwn galw heibio, a chânt eu categoreiddio fel a ganlyn:

Categori	Nifer
Staff Ysgol Griffith Jones	2
Pennaeth Ysgol Uwchradd	1
Menter Gorllewin Sir Gâr	2
Rhiant	2

## **Y Camau Nesaf**

Caiff yr Adroddiad Ymgynghori ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant i gael sylwadau ac argymhelliad, ac wedyn yn y pen draw i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig a chyhoeddi hysbysiad statudol. Os bydd y Bwrdd Gweithredol yn penderfynu bwrw ymlaen i'r cam nesaf, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi yn ystod Tymor yr Hydref 2019.

### 3.1 Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
<b>Sylwadau Cefnogol a Gafwyd</b>				
1.	<p><b><u>Dwyieithrwydd</u></b></p> <p>Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion ddod yn ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddatblygu dwyieithrwydd yn y gymuned.</p> <p>Mae dwyieithrwydd yn cynnig llawer o fanteision i'r holl ddisgyblion ac ni ddylid ystyried dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn anfantais. Dylai pob disgybl gael cyfle i elwa ar yr holl fanteision sydd ynghlwm wrth fod yn ddwyieithog.</p>	<p>Barn yr Awdurdod Lleol, ar sail tystiolaeth ryngwladol a phrofiad lleol, yw bod plant yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwytio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg ddwyieithog y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol.</p>	1	11%

		<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bydd dwyieithrwydd yn sgîl mwyfwy pwysig yn y byd gwaith gydag amser. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p> <p>Cafodd y gefnogaeth ei nodi.</p>		
2.	<p><b><u>Ystyried datblygiad ieithyddol pellach ar hyd y Sector Addysg</u></b> Cydnabuwyd bod y cynnig yn symud yr ysgol ar hyd y continwwm iaith, ond mae angen rhoi ystyriaeth i ddatblygiad ieithyddol pellach ym mhob maes o'r sector addysg.</p>	<p>Ar 25 Mehefin 2018, yn unol â Chynllun Strategol Llywodraeth Cymru, lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a'i weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i <b>bob</b> ysgol yn y sir symud ar hyd y continwwm iaith ac mae'n nodi'r amcanion canlynol:</p>	1	11%



		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod pob disgybl yn hollol ddwyieithog (ac amlieithog) pan fyddant yn gadael yr ysgol fel bod ganddynt y sgiliau i weithredu fel dinasyddion dwyieithog yn eu cymunedau, yn y gweithle a thu hwnt/ar draws y byd;</li> <li>• Darparu gwasanaethau a fydd yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu o safon uchel gan holl blant, pobl ifanc ac oedolion Sir Gaerfyrddin, a thrwy hynny eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn fel dysgwyr gydol oes yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw y sir;</li> <li>• Sicrhau cynnydd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol i addysg gynradd ac uwchradd ddwyieithog;</li> <li>• Sicrhau cynnydd ieithyddol ar draws meysydd cwricwlaidd wrth drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3, o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod</li> </ul>		
--	--	---	--	--

		<p>Allweddol 4 a hyrwyddo cynnydd ieithyddol o Gyfnod Allweddol 4 i ddysgu gydol oes; a</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl ddarparwyr i wella safon y Gymraeg yn yr amgylchedd dysgu.</li> </ul>		
<b>Pryderon a Godwyd</b>				
1.	<p><b><u>Mae'r Sefyllfa Bresennol yn Llwyddiannus</u></b> Mae'r trefniadau ieithyddol presennol yn yr ysgol yn gweithio'n dda ac nid oes angen newid.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod yr ysgol yn perfformio'n dda ac yn llwyddiannus. Mae'r cynnig hwn yn ceisio gwella ymhellach gyfleoedd i'r plant sy'n mynychu'r ysgol sicrhau canlyniadau sy'n gwella'n barhaus. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r</p>	2	22%

safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.

Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg.

Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Medi 2018, fe lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo

		<p>gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg;</li><li>• Deilliant 2 - Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;</li><li>• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg;</li><li>• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a</li><li>• Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.</li></ul>		
--	--	---	--	--

		<p>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Mae'n bwysig nodi bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn mynnu bod holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg, yn symud ar hyd y continwwm iaith, gan ddal i gynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar sicrhau ymhen amser y bydd yr holl blant yn ddwyieithog pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol gynradd.</p> <p>Bydd pa mor gyflym y gall ysgolion ehangu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ond mae'r disgwyliad i weld cynnydd yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r ysgol wedi'i chlustnodi fel un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith.</p>		
--	--	---	--	--

2.	<p><b><u>Cyfleoedd Addysg y Disgyblion a'u Cyfleoedd Bywyd Diweddarach</u></b></p> <p>Credir y bydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael effaith andwyol ar addysg disgyblion a'u sgiliau iaith Saesneg, ac yn gosod plant dan anfantais o ran cael addysg bellach neu addysg uwch, ac yn ddiweddarach mewn bywyd pan fyddant yn gwneud cais am swyddi ac ati. Credir na fydd yr holl ddisgyblion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn drwy ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid nodi mai'r iaith fwyaf cyffredin a ddefnyddir o ddydd i ddydd, yn y byd gwaith a'r byd busnes, yw Saesneg, ac felly mae'n rhaid i ddisgyblion feddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r iaith Saesneg er mwyn sicrhau eu bod mor llwyddiannus â phosibl yn y byd go iawn.</p>	<p>Barn yr Awdurdod Lleol, ar sail tystiolaeth ryngwladol ac ymchwil a phrofiad lleol, yw bod plant yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwytio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol.</p> <p>Ar gyfartaledd, noda'r Awdurdod Lleol fod plant dwyieithog yn ennill graddau uwch ym mhwnc Saesneg iaith. Dylid nodi hefyd, ar gyfartaledd, fod 80% o ddisgyblion Sir Gaerfyrddin sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn ennill graddau A*-C yn yr iaith Gymraeg a Saesneg. Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgîl mwyfwy pwysig yn y byd</p>	2	22%
----	---	--	---	-----

		<p>gwaith. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p> <p>Mae ysgolion yn rhoi'r sgiliau i bobl ifanc fynychu prifysgolion ym mhedwar ban byd, ac ni ddylid ystyried y Gymraeg yn anfantais. Yn hytrach na bod yn rhwystr, mae nifer o brifysgolion, yng Nghymru a'r tu hwnt, yn ystyried bod meddu ar sgiliau Cymraeg yn sgil ychwanegol sy'n gallu bod yn fanteisiol pan fo pobl ifanc yn cystadlu am le astudio.</p>		
3.	<p><b><u>Gwahaniaethu ac Eithrio</u></b> Credir bod y cynnig yn gwahaniaethu ac yn gwahanu teuluoedd Saesneg eu hiaith a theuluoedd sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Saesneg. Os caiff y cynnig ei weithredu, gellid gorfodir disgyblion i geisio</p>	<p>Nid yw'n fwriad gan y cynnig hwn i wahaniaethu yn erbyn teuluoedd di-Gymraeg/Saesneg eu hiaith nac i eithrio unrhyw aelodau o'r gymuned o'u cymuned leol eu hunain mewn unrhyw ffordd. I'r gwrthwyneb, mae'r</p>	1	11%

	<p>addysg cyfrwng Saesneg yn rhywle arall, a thrwy hynny eu heithrio ymhellach o'u cymuned leol.</p>	<p>cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i'r holl blant fod yn gwbl ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael ysgol gynradd.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r iaith bresennol. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw newid yn achos disgyblion presennol sy'n mynychu'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.</p> <p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddyn nhw fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd. Mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i bob disgybl/rhiant a</p>		
--	--	--	--	--



		phawb yn y gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.		
4.	<p><b><u>Materion gydag Ysgol Eraill</u></b></p> <p>Ni ddarperir unrhyw ysgolion cyfrwng Saesneg eraill fel rhan o'r cynnig. Ceir pryderon ynghylch lle a/neu safonau mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eraill, pe bai rhieni am anfon eu plant i ysgolion eraill.</p>	<p>Dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant yn mynychu eu hysgol leol, a chred y bydd yr ysgol yn parhau i gynnig addysg o safon uchel i'r plant. Dymuniad yr Awdurdod yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly, ni fydd y cynnig yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. O ganlyniad, nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion cyfrwng Saesneg eraill.</p> <p>Yr unig rwymedigaeth sydd ar y Cyngor Sir o ran hwyluso dewis y rhieni yw pan fo'r dewis hwnnw'n gyson â darparu addysg mewn modd effeithiol a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Nid oes gan</p>	1	11%

		<p>yr un rhiant hawl i fynnu lle mewn ysgol benodol i'w blentyn neu i'w blant. Caiff y lleoedd yn yr ysgolion eu dyrannu ar sail meini prawf derbyn disgyblion cyhoeddedig y Cyngor, sy'n ffafrio bod plant yn mynychu eu hysgol leol neu ysgol "ddynodedig". Ar gais y rhieni caiff plant eu derbyn i ysgol heblaw eu hysgol ddynodedig a hynny pan fo lleoedd ar gael ac yn unol â'r meini prawf o ran gor-alw yn y polisi derbyn disgyblion, sydd wedi ei gyhoeddi. Dymuniad y Cyngor Sir yw bod plant yn mynychu eu hysgol leol, a chynllunnir lleoedd mewn ysgolion ar sail yr egwyddor hon.</p> <p>Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion cyfrwng Saesneg eraill fel rhan o'r cynnig. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill, byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys safonau'r ysgolion eraill.</p>		
--	--	--	--	--

5.	<p><b><u>Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn</u></b></p> <p>Codwyd pryderon na fydd rhieni'n gallu chwarae rhan actif yn addysg y plentyn.</p>	<p>Mae ysgolion Cymraeg yn nodi cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly fydd dim trafferth gennych chi o ran deall pa waith sy'n rhaid i'r plant ei wneud. Bydd gwaith yn cael ei osod yn addas i lefel a gallu'r disgybl. Fe ddylai, felly, fod o fewn cyrraedd eich plentyn. Wrth i blant dyfu'n hŷn a datblygu'n ddysgwyr annibynnol, efallai y bydd y rhieni yn gweld eu bod yn hapus i fwrw ati heb arweiniad ychwanegol ganddynt hwy.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o gymorth i'r disgyblion a'r rhieni o deuluoedd di-Gymraeg, ac maent wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth fel bo'r angen er mwyn diwallu anghenion y teuluoedd yn y dyfodol.</p>	1	11%
----	--	---	---	-----

## 3.2 Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan ymgynghoriad Cyngor Sir Caerfyrddin i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn Ysgol Griffith Jones.**

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Côt cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag nid yw Estyn yn gorff y mae rheidrwydd arno i gydymffurfio â'r Côt, ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn rhoi ei farn.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth ddarparwyd gan y cynigydd.

### Cyflwyniad

Dyma gynnis ymgynghorol gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Y cynnig yw:

- **Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn Ysgol Griffith Jones.**

### Crynodeb/Casgliadau

Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl mewn Cymraeg a Saesneg ac sydd â'r gallu i ddefnyddio'u hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Mae'r cynigydd yn nodi hefyd fod hyn yn cydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'. O ganlyniad, mae'r cynigydd yn nodi'n glir y bydd natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Griffith Jones yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg o 1 Medi 2020.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol yr addysg a'r ddarpariaeth a geir yn yr ardal o leiaf.

### Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigydd wedi gosod sail resymegol glir dros y manteision disgwylidig a fwriedir, sef y bydd newid i addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn cryfhau sgiliau dwyieithog y disgyblion o oedran cynnar, gan osod sylfaen gadarn iddynt er mwyn datblygu eu gallu ieithyddol yn y dyfodol. Mae'r

cynigydd yn datgan yn ddilys bod nifer y disgyblion sy'n mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Griffith Jones gryn dipyn yn is na'r rheiny sy'n mynychu ffrwd Gymraeg y Cyfnod Sylfaen.

Mae'n nodi, o gymharu â nifer disgyblion yr ysgol gyfan (305 o ddisgyblion), bod nifer y plant oedd yn mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ionawr 2018 yn cyfateb i 5% o boblogaeth yr ysgol gyfan.

Mae'r cynigydd yn nodi manteision ychwanegol priodol y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfle i ddisgyblion gael eu trochi'n gynnar y Gymraeg o oedran ifanc, sy'n caniatáu i ddisgyblion ennill sylfaen gadarn yn y Gymraeg. At hynny, mae'r cynigydd yn nodi'n glir y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn darparu sgiliau ieithyddol uwch i ddisgyblion i'w datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae'r cynigydd yn cyfleu ymhellach y bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Mae'r cynigydd wedi nodi'n briodol anfanteision y cynnig presennol, sy'n canolbwyntio ar wrthwynebiad posibl gan y gymuned leol i'r cynnig yn ogystal â'r broses statudol sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r cynnig.

Mae'r cynigydd yn cadarnhau na fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg uwchradd nac unrhyw newid i ddalgyrch presennol yr ysgol.

### **Agweddau addysgol y cynnig:**

Mae'r cynigydd yn cyfeirio'n briodol at ganlyniadau arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol. Mae'n nodi'n gywir bod perfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon am welliant wedi'u barnu i fod yn dda adeg yr arolygiad craidd. Mae'r cynigydd hefyd yn cyfeirio'n fyr at gategori'r ysgol o fewn y System Genedlaethol ar gyfer Categorioreiddio Ysgolion sydd yn y categori cymorth 'melyn' ar hyn o bryd.

Mae'n dod i gasgliad rhesymol nad yw'n rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd safonau addysg a lles disgyblion yn yr ysgol. Mae'r cynigydd yn datgan yn gryf y bydd y cynnig yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn yr ysgol yn gallu cael mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ac y bydd yn sicrhau cynhwysiant o safbwynt cyfleoedd ieithyddol i ddisgyblion.

### 3.3 Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn

Dengys sylwadau Estyn ei fod o'r farn fod y cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safon addysg bresennol. Mae ei sylwadau'n cynnwys datganiadau cefnogi fel y nodir isod.

#### **Datganiadau o gefnogaeth ar gyfer y cynnig hwn gan Estyn**

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i dri opsiwn ac wedi dewis y cynnig uchod.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol yr addysg a'r ddarpariaeth a geir yn yr ardal o leiaf.

Mae'r cynigydd wedi gosod sail resymegol glir dros y manteision disgwylidig a fwriedir, sef y bydd newid i addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn cryfhau sgiliau dwyieithog y disgyblion o oedran cynnar, gan osod sylfaen gadarn iddynt er mwyn datblygu eu gallu ieithyddol yn y dyfodol.

Mae'r cynigydd yn cyfleu ymhellach y bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

## 3.4 Ymgynghori â'r Disgyblion

**Ysgol:** Ysgol Griffith Jones

**Dyddiad:** 21 Mehefin 2019

**Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan:** Mrs Catrin Griffiths – Rheolwr Datblygu  
Sgiliau Cymraeg

**Cyfwelwyd:** trawstoriad o 14 disgybl o flynyddoedd 2 i 6 o'r ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg.

### Crynodeb

Cynhaliwyd trafodaeth llawn gwybodaeth gyda'r disgyblion ynghylch y cynnig i newid natur darpariaeth Cyfnod Sylfaen yr ysgol a manteision ac anfanteision y cynnig. Gellir gweld crynodeb o'r drafodaeth hon isod.

### Adborth y Disgyblion

Roedd yn haws dysgu iaith arall pan yn ifanc gan mai dyma'r adeg pan nad ydym yn ymwybodol o ddysgu ieithoedd. Po hynaf ydych, mwyaf anodd yw hi i ddysgu Cymraeg.

Byddai ganddynt well siawns o gael swydd yn y dyfodol pe byddent yn dymuno byw yng Nghymru – pan ofynnwyd a oedd unrhyw un ohonynt yn meddwl y byddai efallai'n byw yng Nghymru yn y dyfodol, atebodd pob un y byddai.

Byddai ganddynt fwy o ffrindiau trwy siarad Cymraeg a Saesneg.

Nid yw Saesneg yn dioddef oherwydd gallwch siarad yr iaith honno ym mhobman ac mae o'ch cwmpas drwy'r amser.

Byddai dysgu Cymraeg trwy drochi hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn caniatáu i ddisgyblion fod mewn gwell sefyllfa i benderfynu pa ffrwd yr hoffent fynd iddi.

Rydym yn clywed llawer o Gymraeg yn ein hysgol gan fod ein holl athrawon yn gallu siarad Cymraeg.

Mae hyn yn gyfle da i'r plant hynny nad ydynt yn dod o gartrefi Cymraeg i ddysgu'r iaith yn ifanc, ac yna gallant benderfynu eu hunain a ydynt am barhau yn y ffrwd Gymraeg ai peidio. Does gennym ni ddim llawer o ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg erbyn hyn.

Mae'n drueni bod yn rhaid i ni benderfynu pa ysgol uwchradd i fynd iddi gan y gall rannu ffrindiau, ond mae hefyd yn gyfle i wneud ffrindiau newydd.

Roedd pob disgybl yn gytûn y dylid gweithredu'r cynnig.



## 4. Crynodeb Gweithredol - Ysgol Llangynnwr

### Y Cyfnod Ymgynghori

Ar 20 Mai 2019 cyhoeddwyd cynigion gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llangynnwr, yng nghymuned Llangynnwr. Cynnig y Cyngor Sir yw:

- Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 20 Mai 2019, yr un pryd â chyhoeddi'r cynigion, a daeth i ben ar 30 Mehefin 2019. Daeth 44 o ymatebion i law (ac eithrio'r ymatebion gafwyd gan Estyn a thrwy'r ymgynghoriad â disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law		
Arolwg ar-lein	E-bost	Cyfanswm
28	16	44

Rhaid nodi bod pob un o'r 44 o ymatebion a gafwyd wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

### Yr Ymatebion a Ddaeth i Law

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei lunio mewn ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â Pholisïau Llywodraeth Cymru. Bydd y cynnig i symud Ysgol Llangynnwr ar hyd y continwrm iaith Gymraeg yn helpu'r awdurdod i gyflawni ei weledigaeth o Sir Gâr ddwyieithog ac i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er cyflawnder, mae'r ymatebion hyn wedi eu cynnwys hefyd yn yr adroddiad hwn ac mae themâu'r holl sylwadau ddaeth i law fel a ganlyn:

### **Cefnogol**

- Thema 1 – Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a helpu i gynnal yr iaith Gymraeg
- Thema 2 – Dwyieithrwydd

- Thema 3 – Mae'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru
- Thema 4 – Dim rheswm
- Thema 5 – Ystyried datblygiad ieithyddol pellach ar hyd y Sector Addysg

### **Pryderon**

- Thema 1 – Gorfodi'r Gymraeg
- Thema 2 – Gwaredu'r Dewis
- Thema 3 – Staffio
- Thema 4 – Cyfleoedd i Rieni
- Thema 5 – Dim rheswm
- Thema 6 – Mae'r Sefyllfa Bresennol yn Llwyddiannus
- Thema 7 – Gwahaniaethu ac Eithrio
- Thema 8 – Polisiâu Llywodraeth Cymru / Cyngor Sir Caerfyrddin / Arbed Arian
- Thema 9 - Gwahanu Brodyr a Chwiorydd
- Thema 10 – Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn

Caiff y 44 o ymatebwyr eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Rhiant (15)
- Llywodraethwr Ysgol (1)
- Tad-cu neu Fam-gu (1)
- Arall (27)

### **Crynodeb Cyffredinol**

Cefnogol	86%	Ddim yn gefnogol	14%
----------	-----	------------------	-----

### **Gweithdai**

Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad ar 30 Mehefin 2019, cynhaliwyd gweithdai i ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law.

### **Digwyddiad Ymgynghori**

Cynhaliwyd sesiwn galw heibio yn Ysgol Llangynnwr ar 7 Mehefin 2019 rhwng 5pm a 7pm i roi cyfle i staff, rhieni, a rhanddeiliaid ofyn cwestiynau a thrafod y cynnig.

Aeth 8 o randdeiliaid i'r sesiwn galw heibio, a chânt eu categorio fel a ganlyn:

Categori	Nifer
Staff Ysgol Llangynnwr	4
Llywodraethwr	1
Menter Gorllewin Sir Gâr	2
Darpar rieni	1

## **Y Camau Nesaf**

Caiff yr Adroddiad Ymgynghori ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant i gael sylwadau ac argymhelliad, ac wedyn yn y pen draw i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig a chyhoeddi hysbysiad statudol. Os bydd y Bwrdd Gweithredol yn penderfynu bwrw ymlaen i'r cam nesaf, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi yn ystod Tymor yr Hydref 2019.

## 4.1 Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
<b>Sylwadau Cefnogol a Gafwyd</b>				
1.	<p><b><u>Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a helpu i gynnal yr iaith Gymraeg</u></b></p> <p>Bydd y cynnig yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned ac yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p>	<p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddyn nhw fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd. Mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i bawb yn y gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.</p> <p>Cafodd y gefnogaeth ei nodi.</p>	14	32%
2.	<p><b><u>Dwyieithrwydd</u></b></p> <p>Bydd y cynnig yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion ddod yn ddwyieithog a meddu ar y</p>	<p>Barn yr Awdurdod Lleol, ar sail tystiolaeth ryngwladol a phrofiad lleol, yw bod plant yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell</p>	13	30%

	<p>sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd hyn hefyd yn helpu i ddatblygu ddwyieithrwydd yn y gymuned.</p> <p>Mae ddwyieithrwydd yn cynnig llawer o fanteision i'r holl ddisgyblion ac ni ddylid ystyried dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn anfantais. Dylai pob disgybl gael cyfle i elwa ar yr holl fanteision sydd ynghlwm wrth fod yn ddwyieithog.</p>	<p>dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwyntio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod plant yn cael addysg ddwyieithog y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bydd ddwyieithrwydd yn sgîl mwyfwy pwysig yn y byd gwaith gydag amser. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p> <p>Cafodd y gefnogaeth ei nodi.</p>		
3.	<p><b><u>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â pholisïau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru</u></b></p> <p>Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol a nod Llywodraeth Cymru "Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo'r cynnig presennol ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal gan ei fod yn barnu'n bendant taw hyn sydd orau o ran addysg y plant. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb hefyd i ddilyn ei bolisïau ei hun ochr yn ochr â pholisïau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion</p>	5	11%

	<p>Cymraeg", mae'r cynnig yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â pholisïau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg. Mae'r cynnig yn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn cyrraedd ei nod o gynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin a sicrhau parhad ieithyddol o'r sector meithrin ar hyd y cyfnodau allweddol i'r sector uwchradd fel bod pob disgybl yn datblygu i fod yn rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p>	<p>(Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg. Mae'r holl argymhellion a chamau gweithredu perthnasol yn y strategaeth wedi'u cynnwys yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Ar 25 Mehefin 2018, lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin, sy'n ceisio cyflawni'r deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 2 - Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;</li> </ul>		
--	--	--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a</li> <li>• Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.</li> </ul> <p>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Cafodd y gefnogaeth ei nodi.</p>		
4.	<p><b><u>Dim rheswm</u></b></p> <p>Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu cefnogaeth.</p>		3	7%
5.	<p><b><u>Ystyried datblygiad ieithyddol pellach ar hyd y Sector Addysg</u></b></p> <p>Cydnabuwyd bod y cynnig yn symud yr ysgol ar hyd y continwmm iaith, ond mae angen rhoi ystyriaeth i ddatblygiad ieithyddol pellach</p>	<p>Ar 25 Mehefin 2018, yn unol â Chynllun Strategol Llywodraeth Cymru, lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin a'i weledigaeth ar gyfer Sir Gaerfyrddin ddwyieithog.</p>	1	2%

	<p>ym mhob maes o'r sector addysg.</p>	<p>Mae'r Cynllun yn ei gwneud yn ofynnol i <b>bob</b> ysgol yn y sir symud ar hyd y continwwm iaith ac mae'n nodi'r amcanion canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod pob disgybl yn hollol ddwyieithog (ac amlieithog) pan fyddant yn gadael yr ysgol fel bod ganddynt y sgiliau i weithredu fel dinasyddion dwyieithog yn eu cymunedau, yn y gweithle a thu hwnt/ar draws y byd;</li> <li>• Darparu gwasanaethau a fydd yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu o safon uchel gan holl blant, pobl ifanc ac oedolion Sir Gaerfyrddin, a thrwy hynny eu galluogi i gyflawni eu potensial llawn fel dysgwyr gydol oes yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw y sir;</li> <li>• Sicrhau cynnydd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyn-ysgol i addysg gynradd ac uwchradd ddwyieithog;</li> <li>• Sicrhau cynnydd ieithyddol ar draws meysydd cwricwlaidd wrth drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3, o Gyfnod Allweddol 3 i Gyfnod Allweddol 4 a hyrwyddo cynnydd ieithyddol o Gyfnod Allweddol 4 i ddysgu gydol oes; a</li> <li>• Gweithio mewn partneriaeth gyda'r holl ddarparwyr i wella safon y Gymraeg yn yr amgylchedd dysgu.</li> </ul>		
--	--	--	--	--



Pryderon a Godwyd				
1.	<p><b><u>Gorfodi'r iaith Gymraeg</u></b></p> <p>Dylai'r gymuned gael dewis pa un ai i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ac ni ddylid gorfodi'r Gymraeg ar neb. Mae'n bwysig dysgu'r iaith Gymraeg ac efallai y bydd rhai disgyblion am ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, ni fydd pob disgybl am dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fydd gorfodi'r Gymraeg yn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, a dweud y gwir, i'r gwrthwyneb. Bydd gweithredu'r cynnig yn gorfodi disgyblion i geisio addysg cyfrwng Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eraill, a fydd yn golygu na ddaw'r disgyblion i gysylltiad â'r Gymraeg.</p>	<p>Mae'r cynnig yn gyson â'r polisi cenedlaethol i helaethu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog, ac er mwyn galluogi rhagor o blant i elwa ar fanteision dwyieithrwydd - a gadarnheir gan waith ymchwil rhyngwladol.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.</p> <p>Mae'n bwysig cofio bod yr iaith Saesneg yn dal i gael ei haddysgu a'i datblygu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hyd at y safonau uchaf, fel rhan statudol o'r cwricwlwm.</p> <p>Mae'r dystiolaeth ryngwladol, fel a ddyfynnir gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf</p>	4	9%

		<p>effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin yn ogystal â datblygu hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd di-Gymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith.</p>		
2.	<p><b><u>Gwaredu'r Dewis</u></b> Mae pryderon am waredu'r gallu i ddewis addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol. Credir y dylai rhieni allu dewis ym mha iaith yr addysgir eu plant ynddi.</p>	<p>Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg.</p> <p>Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Medi 2018, fe lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin. Mae Cynllun</p>	2	5%

		<p>Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 2 - Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;</li> <li>• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a</li> <li>• Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.</li> </ul> <p>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Mae dewis yn fater pwysig wrth ystyried y cynnig hwn, a'r elfen bwysicaf ohono yw'r dewis sydd ar gael i blant wrth iddynt fynd yn eu blaen drwy eu haddysg a'u</p>		
--	--	--	--	--

		<p>bywydau cynnar. Mae'r cynnig hwn yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion fod yn gwbl ddwyieithog gyda'r sgiliau i ddarllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Mae cynnig yr Awdurdod Lleol i ddatblygu plant sy'n ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd yn rhoi dewis i blant wrth iddynt symud ar hyd y sector addysg. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu plant dwyieithog yn y sector cynradd yw eu trochi mewn addysg cyfrwng Cymraeg. At ei gilydd caiff ei dderbyn yn y proffesiwn addysg nad yw astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn datblygu pobl ifanc gwir ddwyieithog, ac mae'r ysgol wedi'i chlustnodi'n un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith.</p>		
3.	<p><b>Staffio</b> Bydd gweithredu'r cynnig yn cyfyngu ar gyfleoedd i staff nad ydynt yn siarad y Gymraeg ac yn cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth. Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch a oes digon o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi yn yr ysgol er mwyn i'r newid fod yn effeithiol.</p>	<p>Mae'r ysgolion wedi eu clustnodi fel rhai sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith. Yn hytrach na chyfyngu ar gyfleoedd i staff nad ydynt yn siarad Cymraeg, bydd y cynnig hwn yn helpu'r staff i wella eu sgiliau Cymraeg. Bydd "Athrawon Bro" yn darparu hyfforddiant i aelodau o'r staff sy'n llai hyderus yn eu defnydd o'r Gymraeg a bydd yr Awdurdod Lleol hefyd yn darparu cymorth hyfforddiant i unrhyw aelodau o'r staff sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg. Hefyd rhoddir cymorth drwy gyrsiau Sabothol Cenedlaethol yn ogystal â Chymraeg i Oedolion. Mae cyrsiau wedi'u dylunio'n benodol i ddiwallu anghenion staff ar bob lefel ieithyddol. Mae cyrsiau pynciau penodol, ystafelloedd dosbarth ac iaith achlysurol ar gael bellach.</p>	2	5%

4.	<p><b>Cyfleoedd i Rieni</b></p> <p>Teimlai rhai ymatebwyr bod angen cymorth pellach ar rieni i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol, er mwyn helpu i gefnogi eu plant.</p>	<p>Mae sawl sefydliad a ddaeth i'r sesiwn galw heibio ffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi cynnig cefnogaeth a chymorth i'r gymuned o ran datblygu'r iaith Gymraeg.</p> <p>Gellir dod o hyd i gymorth ac arweiniad pellach drwy gyrchu'r dolenni canlynol fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghorol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cymraeg gyda'r plant / Welsh with your kids - rhwch gynnig arni!</b></li> </ul> <p><a href="http://newsroom.carmarthenshire.gov.uk/media/1214148/gd4808-taflencymraegiplant4-002.pdf">http://newsroom.carmarthenshire.gov.uk/media/1214148/gd4808-taflencymraegiplant4-002.pdf</a></p> <p>Yn y llyfryn hwn gwelwch nifer o eiriau ac ymadroddion Cymraeg defnyddiol y gellir eu defnyddio i ymarfer y Gymraeg gyda phlant ifanc. Bydd hyn yn eu helpu i siarad yn naturiol ac yn hyderus.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Bod yn Ddwyeithog... yn Sir Gâr / Being Bilingual... in Carmarthenshire</b></li> </ul> <p><a href="https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1216432/being-bilingual.pdf">https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1216432/being-bilingual.pdf</a></p> <p>Mae'r llyfryn hwn yn esbonio ystyr bod yn ddwyeithog yn ogystal â thynnu sylw at fanteision bod yn ddwyeithog mewn meysydd megis addysg, gyrfa, iechyd a bywyd. Yn ogystal, yn y llyfryn hwn cewch atebion i nifer o bryderon cyffredin rhieni ynghylch y Gymraeg.</p>	2	5%

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Croeso i Gymru i'r Gymraeg</b>      <b>Croeso i Sir Gâr</b>      <b>Croeso</b></li> </ul> <p><a href="http://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/media/1216436/welcome-pack.pdf">http://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/media/1216436/welcome-pack.pdf</a></p> <p>Paratowyd y llyfryn hwn gan Gyngor Sir Caerfyrddin i groesawu newydd-ddyfodiaid i'w sir ddwyieithog. Yn y llyfryn cewch wybodaeth am sut y defnyddir y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin ynghyd â manylion am ble y gallwch gael cymorth o ran y Gymraeg a gwefannau defnyddiol i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg.</p> <p>Mae gwybodaeth gan rieni a disgyblion o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd ar gael i'w gwyllo ar wefan y Cyngor Sir:  <a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/addysg-ddwyieithog/#.XUr7gGaoTjo">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/addysg-ddwyieithog/#.XUr7gGaoTjo</a></p>		
5.	<p><b><u>Dim rheswm</u></b>  Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu gwrthwynebiad.</p>		2	5%

6.	<p><b><u>Mae'r Sefyllfa Bresennol yn Llwyddiannus</u></b></p> <p>Mae'r trefniadau ieithyddol presennol yn yr ysgol yn gweithio'n dda ac nid oes angen newid.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod yr ysgol yn perfformio'n dda ac yn llwyddiannus. Mae'r cynnig hwn yn ceisio gwella ymhellach gyfleoedd i'r plant sy'n mynychu'r ysgol sicrhau canlyniadau sy'n gwella'n barhaus. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg.</p> <p>Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Medi 2018, fe lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r</p>	1	2%
----	--	---	---	----

		<p>cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 2 - Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;</li> <li>• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a</li> <li>• Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.</li> </ul> <p>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Mae'n bwysig nodi bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn mynnu bod holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg, yn symud ar hyd y continwwm iaith, gan ddal i gynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar sicrhau ymhen amser y bydd yr holl blant</p>		
--	--	--	--	--



		<p>yn ddwyieithog pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol gynradd.</p> <p>Bydd pa mor gyflym y gall ysgolion ehangu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ond mae'r disgwylid i weld cynnydd yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r ysgol wedi'i chlustnodi fel un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith.</p>		
7.	<p><b><u>Gwahaniaethu ac Eithrio</u></b></p> <p>Credir bod y cynnig yn gwahaniaethu ac yn gwahanu teuluoedd Saesneg eu hiaith a theuluoedd sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Saesneg. Os caiff y cynnig ei weithredu, gellid gorfodir disgyblion i geisio addysg cyfrwng Saesneg yn rhywle arall, a thrwy hynny eu heithrio ymhellach o'u cymuned leol.</p>	<p>Nid yw'n fwriad gan y cynnig hwn i wahaniaethu yn erbyn teuluoedd di-Gymraeg/Saesneg eu hiaith nac i eithrio unrhyw aelodau o'r gymuned o'u cymuned leol eu hunain mewn unrhyw ffordd. I'r gwrthwyneb, mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i'r holl blant fod yn gwbl ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael ysgol gynradd.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r iaith bresennol. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw newid yn achos disgyblion presennol sy'n mynychu'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.</p> <p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac</p>	1	2%

		<p>sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddyn nhw fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd. Mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i bob disgybl/rhiant a phawb yn y gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.</p>		
8.	<p><b><u>Polisiau Llywodraeth Cymru / Cyngor Sir Caerfyrddin / Arbed Arian</u></b></p> <p>Mae rhai ymatebwyr o'r farn nad yw dilyn polisiau'r Cyngor Sir a'r Llywodraeth megis Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn rheswm digon da dros gymeradwyo a gweithredu'r cynnig gan na fydd yn fuddiol yn y tymor hir. Bernir nad oes unrhyw bwrpas gan y polisiau hyn na chyfiawnhad drostynt, ac mai'r unig beth maent yn ei wneud yw gwthio agenda'r Gymraeg a gwastraffu arian.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn hyrwyddo'r cynnig presennol ar gyfer addysg gynradd yn yr ardal gan ei fod yn barnu'n bendant taw hyn sydd orau o ran addysg y plant. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod Lleol gyfrifoldeb hefyd i ddilyn ei bolisiau ei hun ochr yn ochr â pholisiau Llywodraeth Cymru.</p> <p>Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Mae cyfrifoldeb ar bob awdurdod lleol yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Sir Caerfyrddin, i ymateb i'r Ddeddf ac i Strategaeth Llywodraeth Cymru ynghylch Addysg drwy Gyfrwng y Gymraeg, ac mae pob awdurdod yn atebol yn unigol i Lywodraeth Cymru. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir</p>	1	2%

		<p>Caerfyrddin wedi cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 2 - Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;</li> <li>• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a</li> <li>• Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.</li> </ul> <p>Os na fydd yr Awdurdod Lleol yn ceisio cael y canlyniadau penodol fel y manylir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, ni fyddai'n cyrraedd ei nod o wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg yn ôl argymhellion Llywodraeth Cymru.</p>		
9.	<p><b><u>Gwahanu Brodyr a Chwiorydd</u></b> Pe bai'n cael ei weithredu, efallai y bydd y cynnig yn</p>	<p>Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion eraill yn rhan o'r cynnig.</p>	1	2%

	<p>gwahanu rhai brodyr a chwiorydd na fyddant o bosibl yn gallu mynychu'r un ysgol oherwydd y dymuniad i gael addysg cyfrwng Saesneg.</p>	<p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol lle bydd cymorth digonol yn cael ei ddarparu yn unol ag anghenion pob unigolyn.</p> <p>Os bydd rhieni'n dewis gosod brodyr a chwiorydd mewn ysgolion eraill, byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys gwahanu brodyr a chwiorydd ac unrhyw oblygiadau o ran cludiant. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill nad ydyn nhw'n ysgol ddynodedig nac yn ysgol agosaf, cyfrifoldeb llawn y rhieni fydd cludo eu plant i'r ysgol.</p>		
10.	<p><b><u>Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn</u></b></p> <p>Codwyd pryderon na fydd rhieni'n gallu chwarae rhan actif yn addysg y plentyn.</p>	<p>Mae ysgolion Cymraeg yn nodi cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly fydd dim trafferth gennych chi o ran deall pa waith sy'n rhaid i'r plant ei wneud. Bydd gwaith yn cael ei osod yn addas i lefel a gallu'r disgybl. Fe ddylai, felly, fod o fewn cyrraedd eich plentyn. Wrth i blant dyfu'n hŷn a datblygu'n ddysgwyr annibynnol, efallai y bydd y rhieni yn gweld eu</p>	1	2%

		<p>bod yn hapus i fwrw ati heb arweiniad ychwanegol ganddynt hwy.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o gymorth i'r disgyblion a'r rhieni o deuluoedd di-Gymraeg, ac maent wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth fel bo'r angen er mwyn diwallu anghenion y teuluoedd yn y dyfodol.</p>		
--	--	---	--	--

## 4.2 Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan ymgynghoriad Cyngor Sir Caerfyrddin i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llangynnwr.**

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Côt cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag nid yw Estyn yn gorff y mae rheidrwydd arno i gydymffurfio â'r Côt, ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn rhoi ei farn.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd.

### Cyflwyniad

Dyma gynnis ymgynghorol gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Y cynnig yw:

- **newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llangynnwr.**

### Crynodeb/Casgliadau

Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin ac yn datgan bod angen cynyddu nifer y bobl o bob oed a fydd yn dod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r cynigydd yn nodi hefyd fod hyn yn cydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'. O ganlyniad, mae'r cynigydd yn nodi'n glir ei fwriad y bydd natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llangynnwr yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg o 1 Medi 2020.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol yr addysg a'r ddarpariaeth a geir yn yr ardal o leiaf.

### Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigydd wedi gosod sail resymegol glir dros y manteision disgwylidig a fwriedir, sef y bydd newid i addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn cryfhau sgiliau dwyieithog y disgyblion o oedran cynnar, gan osod sylfaen gadarn iddynt er mwyn datblygu eu gallu ieithyddol yn y dyfodol. Mae'r cynigydd yn datgan yn ddilys bod nifer y disgyblion sy'n mynychu ffrwd

Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llangynnwr wedi bod yn gostwng yn gyffredinol ers 2014 a 12 disgybl oedd yno yn Ionawr 2018, sy'n cyferbynnu â nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ffrwd Gymraeg.

Mae'n nodi, o gymharu â nifer disgyblion yr ysgol gyfan (310 o ddisgyblion), bod nifer y plant oedd yn mynychu ffrwd Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ionawr 2018 yn cyfateb i 4% o boblogaeth yr ysgol gyfan.

Mae'r cynigydd yn nodi manteision ychwanegol priodol y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfle i ddisgyblion gael eu trochi'n gynnar y Gymraeg o oedran ifanc, sy'n caniatáu i ddisgyblion ennill sylfaen gadarn yn y Gymraeg. At hynny, mae'r cynigydd yn nodi'n glir y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn darparu sgiliau ieithyddol uwch i ddisgyblion i'w datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2. Yn ogystal, mae'n pwysleisio y byddai gan y disgyblion hyn y gallu i ddefnyddio eu hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.

Mae'r cynigydd yn cyfleu ymhellach y bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Mae'r cynigydd wedi nodi'n briodol anfanteision y cynnig presennol, sy'n canolbwyntio ar wrthwynebiad posibl gan y gymuned leol i'r cynnig yn ogystal â'r broses statudol sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r cynnig.

Mae'r cynigydd yn cadarnhau na fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg uwchradd nac unrhyw newid i ddalgylch presennol yr ysgol.

### **Agweddau addysgol y cynnig:**

Mae'r cynigydd yn cyfeirio'n briodol at ganlyniadau arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol. Mae'n nodi'n gywir bod yr holl feysydd arolygu wedi'u barnu i fod yn dda adeg yr arolygiad craidd. Mae'r cynigydd hefyd yn cyfeirio'n fyr at gategori'r ysgol o fewn y System Genedlaethol ar gyfer Categori Ysgolion sydd yn y categori cymorth 'gwyrdd' ar hyn o bryd.

Mae'n dod i gasgliad rhesymol nad yw'n rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd safonau addysg a lles disgyblion yn yr ysgol. Mae'r cynigydd yn datgan yn gryf y bydd y cynnig yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol.

## 4.3 Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn

Dengys sylwadau Estyn ei fod o'r farn fod y cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safon addysg bresennol. Mae ei sylwadau'n cynnwys datganiadau cefnogi fel y nodir isod.

### **Datganiadau o gefnogaeth ar gyfer y cynnig hwn gan Estyn**

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i dri opsiwn ac wedi dewis y cynnig uchod.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol yr addysg a'r ddarpariaeth a geir yn yr ardal o leiaf.

Mae'r cynigydd yn nodi manteision ychwanegol priodol y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfle i ddisgyblion gael eu trochi'n gynnar y Gymraeg o oedran ifanc, sy'n caniatáu i ddisgyblion ennill sylfaen gadarn yn y Gymraeg. At hynny, mae'r cynigydd yn nodi'n glir y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn darparu sgiliau ieithyddol uwch i ddisgyblion i'w datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae'r cynigydd yn cyfleu ymhellach y bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.



## 4.4 Ymgynghori â'r Disgyblion

**Ysgol:** Ysgol Llangynnwr

**Dyddiad:** 14 Mehefin 2019

**Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan:** Mrs Catrin Griffiths – Rheolwr Datblygu  
Sgiliau Cymraeg

**Cyfwelwyd:** trawstoriad o 14 disgybl o flynyddoedd 2 i 6 o'r ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg.

### **Crynodeb**

Cynhaliwyd trafodaeth llawn gwybodaeth gyda'r disgyblion ynghylch y cynnig i newid natur darpariaeth Cyfnod Sylfaen yr ysgol a manteision ac anfanteision y cynnig. Gellir gweld crynodeb o'r drafodaeth hon isod.

### **Adborth y Disgyblion**

Roedd disgyblion Ysgol Llangynnwr yn deall nifer o ffactorau yn nhermau addysg cyfrwng Cymraeg a gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.

Roeddent yn bendant o'r farn bod hwn yn gyfnod pwysig iawn iddynt gan y byddant yn dod yn rhan o'r siaradwyr Cymraeg hynny ar gyfer y dyfodol.

Nid oedd ganddynt unrhyw amheuaeth fod ymestyn y cyfle i ddysgu Cymraeg hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn beth cadarnhaol ac yn gyfle i ennill mwy o ddealltwriaeth o'r Gymraeg o oedran cynnar. Teimlent ei bod yn haws dysgu iaith yn ifanc a bod hyn hefyd yn rhoi mwy o rym i'r disgyblion, pan fyddant yn hŷn, i ddewis trwy ba iaith yr maent am gael eu haddysg yn y dyfodol, yn hytrach na bod eu rhieni'n gwneud y dewis hwnnw. Teimlent y bydd pob disgybl, erbyn diwedd blwyddyn 2, wedi cael sylfaen lawer gwell yn y Gymraeg gan felly ganiatáu iddynt fod yn rhan o'r sgwrs honno gyda'u rhieni.

Buont yn trafod pa mor hawdd oedd dysgu unrhyw iaith yn ifanc ac y gallai fod yn anodd i'r di-Gymraeg werthfawrogi hyn.

Cafwyd trafodaeth wedyn ar y cam nesaf yn eu haddysg lle teimlent y byddai parhau i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn fwy buddiol na pharhau drwy gyfrwng y Saesneg. Roeddent yn ymwybodol iawn o'r cyfleoedd ychwanegol y byddent yn gallu eu cael yn y gweithle, gan ddweud na fyddent yn gallu cael swydd yng Nghymru heb fod yn ddwyieithog.

Buont hefyd yn trafod siarad Cymraeg y tu allan i Gymru tra ar wyliau, pryd y byddent yn teimlo bod modd iddynt gael sgwrs gyda siaradwyr Cymraeg eraill.

Roedd gallu siarad mwy nag un iaith hefyd yn golygu bod modd iddynt gael mwy o ffrindiau.

Yn ogystal, roedd llawer ohonynt yn ymfalchïo yn yr iaith a themlent ei bod yn bwysig iddynt ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth a bod y Siarter Iaith yn bwysig yn hyn.

Bu llawer o'r disgyblion yn trafod y manteision ieithyddol o fod yn ddwyieithog o safbwynt eu helpu i ddysgu ieithoedd eraill.

Roedd pob disgybl yn gytûn y dylid gweithredu'r cynnig.

## 5. Crynodeb Gweithredol - Ysgol Llys Hywel

### Y Cyfnod Ymgynghori

Ar 20 Mai 2019 cyhoeddwyd cynigion gan Gyngor Sir Caerfyrddin ynghylch newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llys Hywel, yng nghymuned Hendy-gwyn ar Daf. Cynnig y Cyngor Sir yw:

- Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg.

Dechreuodd y cyfnod ymgynghori ar 20 Mai 2019, yr un pryd â chyhoeddi'r cynigion, a daeth i ben ar 30 Mehefin 2019. Daeth 25 o ymatebion i law (ac eithrio'r ymatebion gafwyd gan Estyn a thrwy'r ymgynghoriad â disgyblion) mewn ymateb i'r ymgynghoriad ffurfiol.

Yr Ymatebion a Ddaeth i Law		
Arolwg ar-lein	Llythyr	Cyfanswm
24	1	25

Rhaid nodi bod pob un o'r 25 o ymatebion a gafwyd wedi dod i law cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

### Yr Ymatebion a Ddaeth i Law

Mae'r cynnig hwn wedi cael ei lunio mewn ymateb i Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg, yn unol â Pholisïau Llywodraeth Cymru. Bydd y cynnig i symud Ysgol Llys Hywel ar hyd y continwrm iaith Gymraeg yn helpu'r awdurdod i gyflawni ei weledigaeth o Sir Gâr ddwyieithog ac i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Er cyflawnder, mae'r ymatebion hyn wedi eu cynnwys hefyd yn yr adroddiad hwn ac mae themâu'r holl sylwadau ddaeth i law fel a ganlyn:

#### **Cefnogol**

- Thema 1 – Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a helpu i gynnal yr iaith Gymraeg

- Thema 2 – Cyfleoedd i Rieni
- Thema 3 – Dim rheswm

### **Pryderon**

- Thema 1 – Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn
- Thema 2 – Mae'r Sefyllfa Bresennol yn Llwyddiannus
- Thema 3 – Gwahaniaethu ac Eithrio
- Thema 4 – Trosglwyddo i Ysgolion Cyfrwng Saesneg
- Thema 5 – Gwaredu'r Dewis
- Thema 6 – Trafnidiaeth a Theithio i Ysgolion Eraill
- Thema 7 – Y Gymuned
- Thema 8 – Cyfleoedd Addysg y Disgyblion a'u Cyfleoedd Bywyd Diweddarach
- Thema 9 – Materion gydag ysgolion eraill
- Thema 10 – Ymdopi â'r Gymraeg
- Thema 11 – Gorfodi'r Gymraeg

Caiff y 25 o ymatebwyr eu categoreiddio fel a ganlyn:

- Rhiant (19)
- Llywodraethwr Ysgol (1)
- Arall (5)

### **Crynodeb Cyffredinol**

Cefnogol	44%	Ddim yn gefnogol	56%
----------	-----	------------------	-----

### **Gweithdai**

Yn dilyn diwedd yr ymgynghoriad ar 30 Mehefin 2019, cynhaliwyd gweithdai i ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law.

### **Digwyddiad Ymgynghori**

Cynhaliwyd sesiwn galw heibio yn Ysgol Llys Hywel ar 4 Mehefin 2019 rhwng 5pm a 7pm i roi cyfle i staff, rhieni, a rhanddeiliaid ofyn cwestiynau a thrafod y cynnig.

Aeth 6 o randdeiliaid i'r sesiwn galw heibio, a chânt eu categoreiddio fel a ganlyn:

Categori	Nifer
Staff Ysgol Llys Hywel	1

Pennaeth Ysgol Uwchradd	1
Menter Gorllewin Sir Gâr	2
Rhiant	2

## **Y Camau Nesaf**

Caiff yr Adroddiad Ymgynghori ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant i gael sylwadau ac argymhelliad, ac wedyn yn y pen draw i'r Bwrdd Gweithredol er mwyn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig a chyhoeddi hysbysiad statudol. Os bydd y Bwrdd Gweithredol yn penderfynu bwrw ymlaen i'r cam nesaf, caiff Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi yn ystod Tymor yr Hydref 2019.

## 5.1 Crynodeb o'r Sylwadau ddaeth i law ac Ymatebion yr Awdurdod Lleol

Rhif y Pwynt	Y Pwynt a Godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol	Nifer yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn	% yr ymatebion sy'n codi'r pwynt hwn
<b>Sylwadau Cefnogol a Gafwyd</b>				
1.	<p><b><u>Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a helpu i gynnal yr iaith Gymraeg</u></b></p> <p>Bydd y cynnig yn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned ac yn Sir Gaerfyrddin, yn unol â nod Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.</p>	<p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddyn nhw fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd. Mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i bawb yn y gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.</p> <p>Cafodd y gefnogaeth ei nodi.</p>	1	4%
2.	<p><b><u>Cyfleoedd i Rieni</u></b></p> <p>Cydnabuwyd bod y cynnig yn rhoi cyfle i rieni a'r gymuned ddatblygu eu sgiliau iaith</p>	<p>Mae sawl sefydliad a ddaeth i'r sesiwn galw heibio ffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi cynnig cefnogaeth a chymorth i'r gymuned o ran datblygu'r iaith Gymraeg.</p>	1	4%

	<p>Gymraeg a byddai gan yr ymgynghoreion ddiddordeb mewn unrhyw gymorth sydd ar gael.</p>	<p>Gellir dod o hyd i gymorth ac arweiniad pellach drwy gyrchu'r dolenni canlynol fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghorol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cymraeg gyda'r plant / Welsh with your kids - rhowch gynnig arni!</b>  <a href="http://newsroom.carmarthenshire.gov.uk/media/1214148/gd4808-taflencymraegiplant4-002.pdf">http://newsroom.carmarthenshire.gov.uk/media/1214148/gd4808-taflencymraegiplant4-002.pdf</a>  Yn y llyfryn hwn gwelwch nifer o eiriau ac ymadroddion Cymraeg defnyddiol y gellir eu defnyddio i ymarfer y Gymraeg gyda phlant ifanc. Bydd hyn yn eu helpu i siarad yn naturiol ac yn hyderus.</li> <li>• <b>Bod yn Ddwyieithog... yn Sir Gâr / Being Bilingual... in Carmarthenshire</b>  <a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1216432/ldp-evidential-review-cym.pdf">https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1216432/ldp-evidential-review-cym.pdf</a>  Mae'r llyfryn hwn yn esbonio ystyr bod yn ddwyieithog yn ogystal â thynnu sylw at fanteision bod yn ddwyieithog mewn meysydd megis addysg, gyrfa, iechyd a bywyd. Yn ogystal, yn y llyfryn hwn cewch atebion i nifer o bryderon cyffredin rhieni ynghylch y Gymraeg.</li> <li>• <b>Croeso i Gymru i'r Gymraeg      Croeso i Sir Gâr      Croeso</b>  <a href="http://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/media/1216436/welcome-pack.pdf">http://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/media/1216436/welcome-pack.pdf</a></li> </ul>		
--	---	--	--	--

		<p>Paratowyd y llyfryn hwn gan Gyngor Sir Caerfyrddin i groesawu newydd-ddyfodiaid i'w sir ddwyieithog. Yn y llyfryn cewch wybodaeth am sut y defnyddir y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin ynghyd â manylion am ble y gallwch gael cymorth o ran y Gymraeg a gwefannau defnyddiol i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg.</p> <p>Mae gwybodaeth gan rieni a disgyblion o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd ar gael i'w gwyllo ar wefan y Cyngor Sir:</p> <p><a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/addysg-ddwyieithog/#.XUr7gGaotjo">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/addysg-ddwyieithog/#.XUr7gGaotjo</a></p>		
3.	<p><b><u>Dim rheswm</u></b></p> <p>Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu cefnogaeth.</p>		1	4%
<b>Pryderon a Godwyd</b>				
1.	<p><b><u>Ni fydd rhieni'n gallu helpu i gefnogi eu plentyn</u></b></p> <p>Codwyd pryderon na fydd rhieni'n gallu chwarae rhan actif yn addysg y plentyn.</p>	<p>Mae ysgolion Cymraeg yn nodi cyfarwyddiadau gwaith cartref yn Gymraeg ac yn Saesneg, felly fydd dim trafferth gennych chi o ran deall pa waith sy'n rhaid i'r plant ei wneud. Bydd gwaith yn cael ei osod yn addas i lefel a gallu'r disgybl. Fe ddylai, felly, fod o fewn cyrraedd eich plentyn. Wrth i blant dyfu'n hŷn a datblygu'n ddysgwyr annibynnol, efallai y bydd y rhieni</p>	8	32%



		<p>yn gweld eu bod yn hapus i fwrw ati heb arweiniad ychwanegol ganddynt hwy.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o gymorth i'r disgyblion a'r rhieni o deuluoedd di-Gymraeg, ac maent wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth fel bo'r angen er mwyn diwallu anghenion y teuluoedd yn y dyfodol.</p>		
2.	<p><b><u>Mae'r Sefyllfa Bresennol yn Llwyddiannus</u></b></p> <p>Mae'r trefniadau ieithyddol presennol yn yr ysgol yn gweithio'n dda ac nid oes angen newid.</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod yr ysgol yn perfformio'n dda ac yn llwyddiannus. Mae'r cynnig hwn yn ceisio gwella ymhellach gyfleoedd i'r plant sy'n mynychu'r ysgol sicrhau canlyniadau sy'n gwella'n barhaus. Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth. Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o</p>	5	20%

		<p>bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg.</p> <p>Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Medi 2018, fe lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 2 - Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;</li> <li>• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a</li> </ul>		
--	--	---	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.</li> </ul> <p>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Mae'n bwysig nodi bod Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn mynnu bod holl ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys yr ysgolion cyfrwng Saesneg, yn symud ar hyd y continwwm iaith, gan ddal i gynyddu cyfran yr addysg a ddarperir drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda golwg ar sicrhau ymhen amser y bydd yr holl blant yn ddwyieithog pan fyddan nhw'n gadael yr ysgol gynradd.</p> <p>Bydd pa mor gyflym y gall ysgolion ehangu dwyieithrwydd ac addysg cyfrwng Cymraeg yn dibynnu ar amgylchiadau lleol ond mae'r disgwyliad i weld cynnydd yn berthnasol i bob ysgol. Mae'r ysgol wedi'i chlustnodi fel un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith.</p>		
3.	<p><b><u>Gwahaniaethu ac Eithrio</u></b></p> <p>Credir bod y cynnig yn gwahaniaethu ac yn gwahanu teuluoedd Saesneg eu hiaith a theuluoedd sy'n dymuno cael addysg cyfrwng Saesneg. Os caiff y cynnig ei weithredu, gellid</p>	<p>Nid yw'n fwriad gan y cynnig hwn i wahaniaethu yn erbyn teuluoedd di-Gymraeg/Saesneg eu hiaith nac i eithrio unrhyw aelodau o'r gymuned o'u cymuned leol eu hunain mewn unrhyw ffordd. I'r gwrthwyneb, mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i'r holl blant fod yn gwbl ddwyieithog a meddu ar y sgiliau i allu darllen,</p>	4	16%

	<p>gorfodir disgyblion i geisio addysg cyfrwng Saesneg yn rhywle arall, a thrwy hynny eu heithrio ymhellach o'u cymuned leol.</p>	<p>ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael ysgol gynradd.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r iaith bresennol. Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw newid yn achos disgyblion presennol sy'n mynychu'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.</p> <p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol. Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddyn nhw fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd. Mae'r cynnig hwn yn ceisio rhoi cyfle i bob disgybl/rhiant a phawb yn y gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg.</p>		
4.	<p><b><u>Trosglwyddo i ysgolion cyfrwng Saesneg</u></b></p> <p>Mae'n annheg bod disgyblion sy'n dymuno/sydd angen addysg cyfrwng Saesneg yn gorfod trosglwyddo i ysgol arall y tu allan i'w dalgyrch. Hefyd,</p>	<p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr</p>	4	16%

	<p>teimlir bydd yn rhaid i ddisgyblion sy'n cael anhawster â'r iaith Gymraeg drosglwyddo i ysgol arall.</p>	<p>Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol. Darperir cymorth digonol i holl ddisgyblion y dyfodol, yn unol ag anghenion yr unigolyn.</p> <p>Gweler <b>pwyt 10</b> sy'n cyfeirio at y cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd ac a fydd yn dal i gael eu darparu i'r holl ddisgyblion a rhieni o ran yr iaith Gymraeg.</p> <p>Gweler <b>pwyt 12</b> sy'n cyfeirio at ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, anghenion addysgol arbennig, a'r cymorth a'r gefnogaeth sy'n cael eu darparu i'r disgyblion ac a fydd yn dal i gael eu darparu iddynt.</p>		
5.	<p><b><u>Gwaredu'r Dewis</u></b></p> <p>Mae pryderon am waredu'r gallu i ddewis addysg cyfrwng Saesneg yn yr ysgol. Credir y dylai rhieni allu dewis ym mha iaith yr addysgir eu plant ynddi.</p>	<p>Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin gyfrifoldeb statudol o dan Ran 4 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i lunio Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer ei ardal gyda golwg benodol ar wella'r modd y cynllunnir darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn codi'r safonau o ran addysgu ac o ran dysgu Cymraeg.</p> <p>Ym mis Ebrill 2014 bu i'r Cyngor Sir fabwysiadu'n ffurfiol strategaeth gynhwysfawr ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin, gan gymeradwyo argymhellion grŵp (oedd yn gytbwys yn wleidyddol) o aelodau etholedig a oedd wedi rhoi sylw manwl i statws y Gymraeg yn y sir yn sgil cyfrifiad 2011 o'r boblogaeth.</p>	3	12%

		<p>Roedd y strategaeth yn mynnu bod camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn perthynas â 73 o bwyntiau, yr oedd 21 ohonynt yn berthnasol i'r gwasanaeth addysg.</p> <p>Cafodd y strategaeth iaith gefnogaeth drawsbleidiol gan yr aelodau etholedig pan y'i mabwysiadwyd yng nghyfarfod llawn y Cyngor Sir. Ar 25 Medi 2018, fe lansiodd yr Awdurdod Lleol Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg diweddaraf Sir Gaerfyrddin. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi bod yn destun ymgynghori â'r cyhoedd wrth iddo gael ei baratoi ac wrth iddo gael ei adolygu'n ddiweddarach. Felly mae'r cyhoedd wedi rhoi ei farn am y cynnwys, yn unol â gofynion statudol. Hefyd mae wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn unol â gofynion y Ddeddf.</p> <p>Mae'r Cynllun yn ceisio cael y deilliannau canlynol sy'n berthnasol i'r cynnig:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 1 – Addysgu rhagor o blant 7 oed drwy gyfrwng y Gymraeg;</li> <li>• Deilliant 2 - Rhagor o ddysgwyr i ddal ati i wella eu sgiliau iaith wrth iddynt symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;</li> <li>• Deilliant 5 – Mwy o ddisgyblion sydd â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg;</li> </ul>		
--	--	--	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Deilliant 6 – Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); a</li> <li>• Deilliant 7 – Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus.</li> </ul> <p>Mae'r cynnig yn cydymffurfio â'r argymhellion a bennwyd yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Mae dewis yn fater pwysig wrth ystyried y cynnig hwn, a'r elfen bwysicaf ohono yw'r dewis sydd ar gael i blant wrth iddynt fynd yn eu blaen drwy eu haddysg a'u bywydau cynnar. Mae'r cynnig hwn yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion fod yn gwbl ddwyieithog gyda'r sgiliau i ddarllen, ysgrifennu a siarad yn Gymraeg a Saesneg erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd. Mae cynnig yr Awdurdod Lleol i ddatblygu plant sy'n ddwyieithog erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd yn rhoi dewis i blant wrth iddynt symud ar hyd y sector addysg. Y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu plant dwyieithog yn y sector cynradd yw eu trochi mewn addysg cyfrwng Cymraeg. At ei gilydd caiff ei dderbyn yn y proffesiwn addysg nad yw astudio'r Gymraeg fel ail iaith yn datblygu pobl ifanc gwir ddwyieithog, ac mae'r ysgol wedi'i chlustnodi'n un sydd â'r potensial i symud yn gyflym ar hyd y continwwm iaith.</p>		
--	--	--	--	--

6.	<p><b><u>Trafnidiaeth a Theithio i Ysgolion Eraill</u></b></p> <p>Mae'n annheg disgwyl i rieni gludo disgyblion i ysgolion eraill er mwyn cael addysg drwy gyfrwng y Saesneg. Bydd hyn yn cael effaith ariannol ar deuluoedd ac yn cymryd mwy o amser.</p>	<p>Gan na fydd dim newidiadau yn achos disgyblion presennol yr ysgolion, o ganlyniad ni fydd angen i unrhyw blentyn gael ei symud o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod holl ddisgyblion y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.</p> <p>Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion cyfrwng Saesneg eraill fel rhan o'r cynnig. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill, byddant yn gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys goblygiadau o ran cludiant. Os bydd unrhyw rieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill nad ydyn nhw'n ysgol ddynodedig nac yn ysgol agosaf, cyfrifoldeb llawn y rhieni fydd cludo eu plant i'r ysgol.</p>	3	12%
7.	<p><b><u>Y Gymuned</u></b></p> <p>Mae'r cynnig yn anghyson â chyfansoddiad y gymuned ac ni fydd yn darparu ar gyfer anghenion y gymuned gyfan.</p> <p>Credir y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar y gymuned gan y bydd teuluoedd yn symud o'r ardal er mwyn ceisio addysg cyfrwng Saesneg yn rhywle arall. Yn ogystal, gallai darparu addysg cyfrwng Cymraeg yn unig olygu y bydd</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod rhai aelodau o'r gymuned yn methu siarad Cymraeg a bod llawer o'r plant sy'n mynychu'r ysgol yn dod o gefndiroedd di-Gymraeg/Saesneg. Felly mae'n bwysig bod yr Awdurdod Lleol yn cynyddu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg sydd ar gael er mwyn hyrwyddo dwyieithrwydd yn yr ardal ac er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn rhugl ac yn hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg.</p> <p>Mae blaenoriaeth genedlaethol yng Nghymru, a arddelir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, i gynyddu nifer y bobl yn ein cymunedau sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n defnyddio'r iaith wrth fyw eu bywydau beunyddiol.</p>	2	8%



	<p>llai o bobl yn symud i'r ardal gan y bydd y ddarpariaeth addysg yn anaddas. Bydd hyn yn arwain at effaith negyddol ar yr economi yn yr ardal leol.</p>	<p>Ystyrir bod ysgolion yn elfen hanfodol bwysig yn natblygiad plant er mwyn iddyn nhw fod yn gwbl ddwyieithog erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod cymunedau'n newid gyda threigl amser a bod symudedd cymdeithasol yn dal i gynyddu. Mae'r Awdurdod Lleol Sir yn ystyried bod y pwynt hwn yn cyfnerthu'r angen am wreiddio addysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cynifer o gymunedau â phosibl er mwyn cryfhau'r iaith ac er mwyn sicrhau bod cynifer o blant â phosibl yn cael cyfle i ymddatblygu'n ddinasyddion gwirioneddol ddwyieithog ac yn elwa ar y manteision personol a ddaw yn sgil dwyieithrwydd.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.</p> <p>Anodd yw rhagweld yr effaith gaiff y cynnig ar nifer y teuluoedd sy'n symud i'r ardal. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod Lleol yn gobeithio y byddant yn deall y buddion sydd ynghlwm wrth addysg cyfrwng Cymraeg</p>		
--	---	---	--	--

		<p>a'r cyfleoedd a'r manteision y gall eu darparu. Bydd y cynnig hwn yn rhoi cyfle i'r holl ddisgyblion yn y dyfodol ddod yn gwbl ddwyieithog yn y Gymraeg a'r Saesneg erbyn eu bod yn gadael yr ysgol gynradd ac elwa ar y manteision hyn drwy gydol eu bywydau.</p> <p>Yn ogystal mae'r Awdurdod Lleol yn gobeithio y bydd y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol drwy roi cyfle i aelodau'r gymuned ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgil mwyfwy pwysig yn y byd gwaith. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p>		
8.	<p><b><u>Cyfleoedd Addysg y Disgyblion a'u Cyfleoedd Bywyd Diweddarach</u></b></p> <p>Credir y bydd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael effaith andwyol ar addysg disgyblion a'u sgiliau iaith Saesneg, ac yn gosod plant dan anfantais o ran cael addysg bellach neu addysg uwch, ac yn ddiweddarach mewn bywyd</p>	<p>Barn yr Awdurdod Lleol, ar sail tystiolaeth ryngwladol ac ymchwil a phrofiad lleol, yw bod plant yn elwa ar addysg wirioneddol ddwyieithog, sy'n datblygu sgiliau ehangach, megis gwell gallu gwybyddol, gwell dealltwriaeth a hyblygrwydd wrth gyflawni tasgau, gwell pwerau canolbwyntio ac ati, ac y dylai pob plentyn dderbyn y cyfleoedd hyn. Hefyd mae bod yn ddwyieithog neu'n amlieithog yn ehangu profiadau diwylliannol unigolion ac yn gallu gwella rhagolygon gyrfa. Ar sail y dystiolaeth dim ond trwy sicrhau bod</p>	2	8%

	<p>pan fyddant yn gwneud cais am swyddi ac ati. Credir na fydd yr holl ddisgyblion yn gallu cyrraedd eu potensial llawn drwy ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rhaid nodi mai'r iaith fwyaf cyffredin a ddefnyddir o ddydd i ddydd, yn y byd gwaith a'r byd busnes, yw Saesneg, ac felly mae'n rhaid i ddisgyblion feddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r iaith Saesneg er mwyn sicrhau eu bod mor llwyddiannus â phosibl yn y byd go iawn.</p>	<p>plant yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg y gellir cael gwir ddwyieithrwydd yn y cyd-destun lleol.</p> <p>Ar gyfartaledd, noda'r Awdurdod Lleol fod plant dwyieithog yn ennill graddau uwch ym mhwnc Saesneg iaith. Dylid nodi hefyd, ar gyfartaledd, fod 80% o ddisgyblion Sir Gaerfyrddin sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn ennill graddau A*-C yn yr iaith Gymraeg a Saesneg.</p> <p>Gydag amser bydd dwyieithrwydd yn sgil mwyfwy pwysig yn y byd gwaith. Er enghraifft, mae'r holl sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru yn gorfod cydymffurfio â safonau statudol newydd o ran y Gymraeg, a thros gyfnod bydd mwyfwy o angen iddynt benodi nifer gynyddol o siaradwyr Cymraeg i ddarparu gwasanaethau. Gydag amser bydd meddu ar sgiliau Cymraeg yn rhoi mantais gystadleuol i unigolion wrth chwilio am waith.</p> <p>Mae ysgolion yn rhoi'r sgiliau i bobl ifanc fynychu prifysgolion ym mhedwar ban byd, ac ni ddylid ystyried y Gymraeg yn anfantais. Yn hytrach na bod yn rhwystr, mae nifer o brifysgolion, yng Nghymru a'r tu hwnt, yn ystyried bod meddu ar sgiliau Cymraeg yn sgil ychwanegol sy'n gallu bod yn fanteisiol pan fo pobl ifanc yn cystadlu am le astudio.</p>		
9.	<p><b><u>Materion gydag Ysgol Eraill</u></b></p> <p>Ni ddarperir unrhyw ysgolion cyfrwng Saesneg eraill fel rhan</p>	<p>Dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant yn mynychu eu hysgol leol, a chred y bydd yr ysgol yn parhau i gynnig addysg o safon uchel i'r plant. Dymuniad yr</p>	2	8%

	<p>o'r cynnig. Ceir pryderon ynghylch lle a/neu safonau mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eraill, pe bai rhieni am anfon eu plant i ysgolion eraill.</p>	<p>Awdurdod yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly, ni fydd y cynnig yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. O ganlyniad, nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion cyfrwng Saesneg eraill.</p> <p>Yr unig rwymedigaeth sydd ar y Cyngor Sir o ran hwyluso dewis y rhieni yw pan fo'r dewis hwnnw'n gyson â darparu addysg mewn modd effeithiol a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Nid oes gan yr un rhiant hawl i fynnu lle mewn ysgol benodol i'w blentyn neu i'w blant. Caiff y lleoedd yn yr ysgolion eu dyrannu ar sail meini prawf derbyn disgyblion cyhoeddedig y Cyngor, sy'n ffafrio bod plant yn mynychu eu hysgol leol neu ysgol "ddynodedig". Ar gais y rhieni caiff plant eu derbyn i ysgol heblaw eu hysgol ddynodedig a hynny pan fo lleoedd ar gael ac yn unol â'r meini prawf o ran gor-alw yn y polisi derbyn disgyblion, sydd wedi ei gyhoeddi. Dymuniad y Cyngor Sir yw bod plant yn mynychu eu hysgol leol, a chynllunnir lleoedd mewn ysgolion ar sail yr egwyddor hon.</p> <p>Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cynnig ysgolion cyfrwng Saesneg eraill fel rhan o'r cynnig. Os bydd rhieni'n dewis gosod eu plant mewn ysgolion eraill, byddant yn</p>		
--	--	--	--	--

		gwneud hynny ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i'r holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys safonau'r ysgolion eraill.		
10.	<p><b><u>Ymdopi â'r Gymraeg</u></b></p> <p>Mynegwyd pryder na fyddai'r holl blant yn gallu ymdopi â dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, yn enwedig disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg. Hefyd mae pryderon y bydd rhieni di-Gymraeg yn ei chael yn anodd cefnogi a helpu eu plant gyda'u gwaith ysgol a'u gwaith cartref pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.</p>	<p>Bydd yr ysgol yn dal i ddarparu cefnogaeth i'r disgyblion presennol drwy gyfrwng yr iaith y maent yn cael eu haddysg drwyddi ar hyn o bryd. Os gweithredir y cynnig rhoddir digon o gefnogaeth i'r holl ddisgyblion newydd, yn ôl anghenion pob unigolyn. Hefyd mae'n bwysig nodi ei bod yn ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol pan fo'r angen i ddiwallu anghenion pob disgybl. Yn ogystal bydd "Athrawon Bro" sy'n rhoi cefnogaeth i ysgolion ledled y sir yn cefnogi'r ysgol. Bydd Canolfannau Trochi yn yr iaith Gymraeg hefyd ar gael i'r disgyblion hynny y gallai fod angen mewnbwn ychwanegol arnynt yn ieithyddol.</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r ysgolion yn cynnig amrywiaeth o gymorth i'r disgyblion a'r rhieni o deuluoedd di-Gymraeg, ac maent wedi ymrwymo i gynyddu'r ddarpariaeth fel bo'r angen er mwyn diwallu anghenion teuluoedd unigol yn y dyfodol.</p> <p>Mae sawl sefydliad a ddaeth i'r sesiwn galw heibio ffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi cynnig cefnogaeth a chymorth i'r gymuned o ran datblygu'r iaith Gymraeg.</p>	1	4%
11.	<p><b><u>Gorfodi'r iaith Gymraeg</u></b></p> <p>Dylai'r gymuned gael dewis pa un ai i ddysgu drwy gyfrwng y</p>	<p>Mae'r cynnig yn gyson â'r polisi cenedlaethol i helaethu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n gwbl ddwyieithog, ac er mwyn</p>	1	4%

	<p>Gymraeg neu'r Saesneg ac ni ddylid gorfodi'r Gymraeg ar neb. Mae'n bwysig dysgu'r iaith Gymraeg ac efallai y bydd rhai disgyblion am ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, ni fydd pob disgybl am dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fydd gorfodi'r Gymraeg yn creu rhagor o siaradwyr Cymraeg, a dweud y gwir, i'r gwrthwyneb. Bydd gweithredu'r cynnig yn gorfodi disgyblion i geisio addysg cyfrwng Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eraill, a fydd yn golygu na ddaw'r disgyblion i gysylltiad â'r Gymraeg.</p>	<p>galluogi rhagor o blant i elwa ar fanteision dwyieithrwydd - a gadarnheir gan waith ymchwil rhyngwladol.</p> <p>Bwriad yr Awdurdod Lleol yw bod yr holl ddisgyblion presennol yn aros yn yr ysgol ac yn parhau i gael eu haddysg drwy'r trefniadau iaith presennol. Felly ni fydd y cynigion yn effeithio ar y disgyblion presennol. Bydd yr ysgol yn dal i estyn cefnogaeth ddigonol i'r holl ddisgyblion presennol drwy'r cyfrwng y maent yn cael eu haddysg ar hyn o bryd, felly nid oes angen symud unrhyw blentyn o'r ysgol. Yn yr un modd, dymuniad yr Awdurdod Lleol yw bod plant lleol yn y dyfodol yn mynychu eu hysgol leol.</p> <p>Mae'n bwysig cofio bod yr iaith Saesneg yn dal i gael ei haddysgu a'i datblygu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg hyd at y safonau uchaf, fel rhan statudol o'r cwricwlwm.</p> <p>Mae'r dystiolaeth rhyngwladol, fel a ddyfynnir gan Lywodraeth Cymru, yn cadarnhau mai'r ffordd fwyaf effeithiol i ddatblygu plant dwyieithog yw eu trochi yn yr iaith sy'n llai cyffredin yn ogystal â datblygu hefyd eu sgiliau yn yr iaith sy'n fwy cyffredin. Hefyd mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, yn achos plant sydd o deuluoedd di-Gymraeg, fod trochi plant yn y Gymraeg yn hynod o bwysig er mwyn gwreiddio'r iaith.</p>		
--	---	--	--	--

12.	<p><b><u>Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)</u></b></p> <p>Efallai na fydd plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gallu ymdopi â dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac y bydd angen addysg cyfrwng Saesneg arnynt o bosibl. Mae'n annheg cymryd yn ganiataol y bydd pob plentyn sydd ag AAA/ADY yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Polisi Cyngor Sir Caerfyrddin yw y dylai ei holl ysgolion fod yn gynhwysol, a bod plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu haddysgu mewn lleoliad prif ffrwd ochr yn ochr â'u cyfoedion ble bynnag y bo modd.</p> <p>O ran y cynnig hwn, bydd y gefnogaeth a roddir yn yr ysgolion i'r plant presennol sydd ag anghenion ychwanegol yn parhau drwy gyfrwng yr iaith y maent yn cael eu haddysg ynddi ar hyn o bryd. Petai'r cynnig yn cael ei weithredu, bydd holl ddisgyblion y dyfodol yn cael cefnogaeth wedi'i theilwra i'w hanghenion. Mae gan yr holl ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau unigol penodol sy'n seiliedig ar eu hamgylchiadau, a darperir rhaglen gymorth bwrpasol i gyd-fynd ag anghenion yr unigolyn. Yn gyffredinol nid yw 'angen dysgu ychwanegol' yn rhwystr o ran dysgu dwy iaith. Mae'n bwysig asesu a monitro'r cynnydd ym mhob iaith y mae plentyn yn ei defnyddio neu'n ei dysgu, gan gynnwys y systemau arwyddion a chyfathrebu â chymorth gweledol sy'n ofynnol ar gyfer rhai disgyblion, yn enwedig gan fod modd defnyddio'r iaith sydd wedi'i datblygu gryfaf i gefnogi a hybu dysgu drwy gyfrwng yr iaith nad yw wedi'i datblygu mor gryf. Mae'n ofynnol i'r staff wahaniaethu'r cwricwlwm a gwneud addasiadau rhesymol i'r iaith ddysgu ac ymateb, er mwyn gallu darparu ar gyfer anghenion ychwanegol ac er mwyn sicrhau bod mynediad i'r cwricwlwm a bod cynnydd o ran y dysgu. Ar brydiau gall fod yn briodol i'r staff</p>	1	4%
-----	--	--	---	----

		<p>dargeddu cymorth ychwanegol drwy un iaith am gyfnod i gyfnerthu a chyflymu'r dysgu, e.e. o ran llythrennedd. Fodd bynnag, bydd achosion prin pan fydd plentyn yn cael diagnosis o gyflwr sy'n golygu nad yw addysg gwbl ddwyieithog yn addas i'r plentyn. Dan amgylchiadau o'r fath mae ymarferwyr proffesiynol yn llunio pecyn cymorth ac yn ei drafod â'r rhieni.</p> <p>Er bod y gyfundrefn wedi'i chynllunio i ddiwallu anghenion dysgwyr drwy ymagwedd gyffredinol a chynhwysol, yn achos nifer bychan o blant sydd ag anghenion ychwanegol cymhleth a sylweddol nid yw hynny'n bosibl bob amser ac mae darpariaeth arbenigol yn cynnig lleoliadau dysgu mwy priodol.</p> <p>Er mwyn gallu sicrhau y caiff anghenion yr holl ddysgwyr eu diwallu, mae'r gyfundrefn ysgolion yn Sir Gaerfyrddin yn cynnwys darpariaeth helaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol. Cynigir addysg mewn ysgol neu uned arbenigol i'r plant sydd â'r anghenion mwyaf difrifol neu gymhleth pan na fo lleoliad prif ffrwd yn addas i'w hanghenion neu pan fo'n well gan y rhieni leoliad arall. Mae gan rai ysgolion uwchradd a chynradd ledled y sir unedau arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion penodol, megis awtistiaeth, namau synhwyrdd, neu oedi o ran lleferydd ac iaith. Mae'r Adran Addysg a Phlant yn darparu cymorth ychwanegol penodol yn yr ysgolion, lle bo modd, fel bod cynifer o blant â phosibl yn aros yn eu hysgol leol. Er ei bod yn well gan y Cyngor</p>		
--	--	---	--	--



		<p>ddiwallu anghenion yr holl blant mewn ysgol brif ffrwd pryd bynnag y bo modd, nid yw hyn yn ymarferol bob amser.</p> <p>Ym mhrofiad y Cyngor hwn mae'r mwyafrif llethol o'r disgyblion hynny sydd ag ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol ac sy'n amrywio o ran eu gallu, yn llwyddo yn ein hysgolion ni waeth beth fo iaith y dysgu ond mae'r Cyngor yn cydnabod bod yna, mewn rhai achosion prin iawn, blant na ellir diwallu eu hanghenion heblaw trwy ddarpariaeth mewn uned arbenigol.</p>		
13.	<p><b><u>Y Broses Ymgynghori</u></b></p> <p><u>Ymgynghori</u></p> <p>Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd digon o gyhoeddusrwydd wedi cael ei roi i'r ymgynghoriad ac y dylai fod wedi bod yn fwy hygyrch.</p> <p><u>Camliwio Data</u></p> <p>Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y data a'r wybodaeth oedd yn y Ddogfen Ymgynghorol yn</p>	<p>Mae'r broses ymgynghori wedi cael ei chynnal yn unol â Chôd Trefniadaeth Ysgolion statudol 2018 ac mae'r holl randdeiliaid gofynnol wedi cael eu hysbysu ac fe ymgynghorwyd â nhw.</p> <p>Cyn yr ymgynghoriad ffurfiol, cynhaliwyd sesiwn galw heibio yn yr ysgol ac yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd sesiwn galw heibio arall er mwyn i randdeiliaid drafod y cynnig. Rhaid nodi nad yw'r arfer hwn yn un o ofynion statudol y Côt Trefniadaeth Ysgolion ond caiff ei ystyried yn arfer da gan Gyngor Sir Caerfyrddin.</p> <p>Cafodd y cyfnod ymgynghori ei gynnal rhwng 20 Mai a 30 Mehefin 2019, a'i gyhoeddi'n eang drwy wefan</p>	1	4%

	<p>anghywir a'u bod yn gamliwiad bwriadol er mwyn camarwain rhanddeiliaid.</p>	<p>Cyngor Sir Caerfyrddin a'r cyfryngau cymdeithasol, a rhoddwyd sylw iddo yn y cyfryngau lleol. Roedd modd i ymgynghoreion ymateb i'r ymgynghoriad drwy'r arolwg ar-lein, e-bost neu lythyr.</p> <p>Mae'r holl ddata a gwybodaeth yn y Ddogfen Ymgynghorol yn gywir ac wedi'i seilio ar Ddata Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Cafodd gwybodaeth ynghylch y trefniadau ieithyddol presennol yn yr ysgol eu cynnwys yn y ddogfen ac roedd yr holl ddata o ran y cynnig yn gywir. Mae'r holl ddata a gynhwysir yn y Ddogfen Ymgynghorol wedi ei nodi fel gofyniad yng Nghôd Trefniadaeth Ysgolion 2018.</p>		
14.	<p><b><u>Cyfleoedd i Rieni</u></b> Teimlai rhai ymatebwyr bod angen cymorth pellach ar rieni i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol, er mwyn helpu i gefnogi eu plant.</p>	<p>Mae sawl sefydliad a ddaeth i'r sesiwn galw heibio ffurfiol yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi cynnig cefnogaeth a chymorth i'r gymuned o ran datblygu'r iaith Gymraeg.</p> <p>Gellir dod o hyd i gymorth ac arweiniad pellach drwy gyrchu'r dolenni canlynol fel y nodir yn y Ddogfen Ymgynghorol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Cymraeg gyda'r plant / Welsh with your kids - rhowch gynnig arni!</b></li> </ul>	1	4%

		<p><a href="http://newsroom.carmarthenshire.gov.uk/media/1214148/gd4808-taflencymraegiplant4-002.pdf">http://newsroom.carmarthenshire.gov.uk/media/1214148/gd4808-taflencymraegiplant4-002.pdf</a></p> <p>Yn y llyfryn hwn gwelwch nifer o eiriau ac ymadroddion Cymraeg defnyddiol y gellir eu defnyddio i ymarfer y Gymraeg gyda phlant ifanc. Bydd hyn yn eu helpu i siarad yn naturiol ac yn hyderus.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Bod yn Ddwyeithog... yn Sir Gâr / Being Bilingual... in Carmarthenshire</b></li> </ul> <p><a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1216432/ldp-evidential-review-cym.pdf">https://www.sirgar.llyw.cymru/media/1216432/ldp-evidential-review-cym.pdf</a></p> <p>Mae'r llyfryn hwn yn esbonio ystyr bod yn ddwyeithog yn ogystal â thynnu sylw at fanteision bod yn ddwyeithog mewn meysydd megis addysg, gyrfa, iechyd a bywyd. Yn ogystal, yn y llyfryn hwn cewch atebion i nifer o bryderon cyffredin rhieni ynghylch y Gymraeg.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Croeso i Gymru      Croeso i Sir Gâr      Croeso i'r Gymraeg</b></li> </ul> <p><a href="http://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/media/1216436/welcome-pack.pdf">http://newsroom.carmarthenshire.gov.wales/media/1216436/welcome-pack.pdf</a></p> <p>Paratowyd y llyfryn hwn gan Gyngor Sir Caerfyrddin i groesawu newydd-ddyfodiaid i'w sir ddwyeithog. Yn y llyfryn cewch wybodaeth am sut y defnyddir y Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin ynghyd â manylion am ble y gallwch gael cymorth o ran y Gymraeg a gwefannau defnyddiol i ddatblygu eich sgiliau Cymraeg.</p>		
--	--	---	--	--

		<p>Mae gwybodaeth gan rieni a disgyblion o deuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg hefyd ar gael i'w gwyllo ar wefan y Cyngor Sir:</p> <p><a href="https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/addysg-ddwyieithog/#.XUr7gGaoTjo">https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/gwasanaethaur-cyngor/addysg-ac-ysgolion/addysg-ddwyieithog/#.XUr7gGaoTjo</a></p>		
15.	<p><b><u>Dim rheswm</u></b> Nid oedd rhai ymatebwyr wedi rhoi rheswm dros eu gwrthwynebiad.</p>		1	4%

## 5.2 Sylwadau Estyn ynghylch y Cynnig

**Ymateb Estyn i'r cynnig gan ymgynghoriad Cyngor Sir Caerfyrddin i newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llys Hywel.**

Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei baratoi gan Arolygwyr Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Côt cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag nid yw Estyn yn gorff y mae rheidwydd arno i gydymffurfio â'r Côt, ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, dim ond ar rinweddau cyffredinol y cynigion trefniadaeth ysgolion y bydd Estyn yn rhoi ei farn.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigydd.

### Cyflwyniad

Dyma gynnis ymgynghorol gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Y cynnig yw:

- **Newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llys Hywel.**

### Crynodeb/Casgliadau

Mae'r cynnig yn canolbwyntio ar sicrhau twf sylweddol mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y bobl o bob oed sy'n dod yn rhugl mewn Cymraeg a Saesneg ac sydd â'r gallu i ddefnyddio'u hieithoedd yn hyderus gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Mae'r cynigydd yn nodi hefyd fod hyn yn cydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'. O ganlyniad, mae'r cynigydd yn nodi'n glir mai ei fwriad yw y bydd natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llys Hywel yn newid i addysg cyfrwng Cymraeg o 1 Medi 2020.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol yr addysg a'r ddarpariaeth a geir yn yr ardal o leiaf.

### Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigydd wedi gosod sail resymegol glir dros y manteision disgwylidig a fwriedir, sef y bydd newid i addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn cryfhau sgiliau dwyieithog y disgyblion o oedran cynnar, gan osod sylfaen gadarn iddynt er mwyn datblygu eu gallu ieithyddol yn y dyfodol. Mae'r cynigydd yn datgan yn ddilys bod nifer y disgyblion sy'n mynychu ffrwd

Saesneg y Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Llys Hywel wedi bod yn is na'r rheiny sy'n mynychu'r ffrwd Gymraeg. Wrth ystyried nifer y disgyblion sy'n mynychu'r Cyfnod Sylfaen yn ei gyfanrwydd, mae'n nodi bod 80% yn mynychu'r ffrwd Gymraeg ac mai 20% yn unig sy'n mynychu'r ffrwd Saesneg (Ionawr 2018).

Mae'r cynigydd yn nodi manteision ychwanegol priodol y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys y cyfle i ddisgyblion gael eu trochi'n gynnar y Gymraeg o oedran ifanc, sy'n caniatáu i ddisgyblion ennill sylfaen gadarn yn y Gymraeg.

At hynny, mae'r cynigydd yn nodi'n glir y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn darparu sgiliau ieithyddol uwch i ddisgyblion i'w datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2. Mae'r cynigydd yn cyfleu ymhellach y bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Mae'r cynigydd wedi nodi'n briodol anfanteision y cynnig presennol, sy'n canolbwyntio ar wrthwynebiad posibl gan y gymuned leol i'r cynnig yn ogystal â'r broses statudol sy'n ofynnol er mwyn gweithredu'r cynnig.

Mae'r cynigydd yn cadarnhau na fydd unrhyw newid yn y trefniadau presennol o ran disgyblion yn trosglwyddo i addysg uwchradd nac unrhyw newid i ddalgyrch presennol yr ysgol.

### **Agweddau addysgol y cynnig:**

Mae'r cynigydd yn cyfeirio'n briodol at ganlyniadau arolygiad diweddaraf Estyn o'r ysgol. Mae'n nodi'n gywir bod perfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon am welliant wedi'u barnu i fod yn ddigonol adeg yr arolygiad craidd. Fodd bynnag, mae hefyd yn nodi bod yr ysgol wedi'i thynnu o blith yr ysgolion y mae angen i Estyn eu monitro. Mae'r cynigydd hefyd yn cyfeirio'n fyr at gategori'r ysgol o fewn y System Genedlaethol ar gyfer Categorioreiddio Ysgolion sydd yn y categori cymorth 'gwyrdd' ar hyn o bryd.

Mae'n dod i gasgliad rhesymol nad yw'n rhagweld unrhyw effeithiau negyddol ar ansawdd safonau addysg a lles disgyblion yn yr ysgol. Mae'r cynigydd yn datgan yn gryf y bydd y cynnig i weithredu'r Cyfnod Sylfaen Cyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod cymuned Hendy-gwyn ar Daf yn parhau i ffynnu fel un ddwyieithog ac y bydd pob disgybl sy'n ymuno â'r ysgol yn cael cyfle i ddatblygu ei sgiliau iaith Gymraeg o oedran cynharach.

## 5.3 Ymateb yr Awdurdod Lleol i Sylwadau Estyn

Dengys sylwadau Estyn ei fod o'r farn fod y cynnig o leiaf yn debygol o gynnal y safon addysg bresennol. Mae ei sylwadau'n cynnwys datganiadau cefnogi fel y nodir isod.

### **Datganiadau o gefnogaeth ar gyfer y cynnig hwn gan Estyn**

Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i dri opsiwn ac wedi dewis y cynnig uchod.

Ym marn Estyn, mae'r cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol yr addysg a'r ddarpariaeth a geir yn yr ardal o leiaf.

Mae'r cynigydd wedi gosod sail resymegol glir dros y manteision disgwylledig a fwriedir, sef y bydd newid i addysg cyfrwng Cymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn cryfhau sgiliau dwyieithog y disgyblion o oedran cynnar, gan osod sylfaen gadarn iddynt er mwyn datblygu eu gallu ieithyddol yn y dyfodol.

At hynny, mae'r cynigydd yn nodi'n glir y bydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn darparu sgiliau ieithyddol uwch i ddisgyblion i'w datblygu ymhellach yng Nghyfnod Allweddol 2.

Mae'r cynigydd yn cyfleu ymhellach y bydd newid natur darpariaeth y Cyfnod Sylfaen o fod yn ddwy ffrwd i fod yn gyfrwng Cymraeg yn sicrhau bod yr ysgol yn symud ar hyd continwwm Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

## 5.4 Ymgynghori â'r Disgyblion

**Ysgol:** Ysgol Llys Hywel

**Dyddiad:** 28 Mehefin 2019

**Cynhaliwyd yr ymgynghoriad gan:** Mrs Catrin Griffiths – Rheolwr Datblygu  
Sgiliau Cymraeg

**Cyfwelwyd:** trawstoriad o 13 disgybl o flynyddoedd 2 i 6 o'r ffrwd Gymraeg a'r ffrwd Saesneg.

### **Crynodeb**

Cynhaliwyd trafodaeth llawn gwybodaeth gyda'r disgyblion ynghylch y cynnig i newid natur darpariaeth Cyfnod Sylfaen yr ysgol a manteision ac anfanteision y cynnig. Gellir gweld crynodeb o'r drafodaeth hon isod.

### **Adborth y Disgyblion**

Roedd disgyblion o Ysgol Llys Hywel wedi cymryd y cyfle i edrych ar fanteision ac anfanteision trochi pob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen mewn addysg Gymraeg er mwyn gallu ymateb i'r ymgynghoriad.

Y manteision oedd:

Roedd yn haws dysgu iaith arall pan yn ifanc.

Mae chwarae gemau a chanu caneuon yn ffordd haws o ddysgu Cymraeg, sy'n cael ei wneud lawer mwy yn y Cyfnod Sylfaen.

Po hynaf ydych, mwyaf anodd yw hi i ddysgu Cymraeg neu unrhyw iaith.

Byddent yn gallu gwneud mwy o ffrindiau trwy siarad Cymraeg a Saesneg.

Byddai ganddynt well siawns o gael swydd yn y dyfodol.

Nid yw Saesneg yn dioddef oherwydd gallwch siarad yr iaith honno ym mhobman.

Byddai dysgu Cymraeg trwy drochi hyd at ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn caniatáu i ddisgyblion fod mewn gwell sefyllfa i benderfynu pa ffrwd yr hoffent fynd iddi.

Byddai'n gallu helpu teuluoedd Saesneg eu hiaith.

Yr anfanteision oedd:



Nid yw pob athro yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.

Mae'n haws siarad Saesneg gartref.

Mae mwy o ddisgyblion yn siarad Saesneg yn unig yn Nyffryn Taf.

Byddent yn hoffi aros yn Hendy-gwyn ar Daf ar gyfer eu haddysg uwchradd.

Byddai'n anodd newid o'r ffrwd Saesneg i'r ffrwd Gymraeg. (Roedd angen eglurhad yma gan nad oes cynnig i symud disgyblion o'r ffrwd cyfrwng Saesneg o fewn yr ysgol. Mae'r cynnig ond yn effeithio ar ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen o fis Medi 2020 ymlaen.)

Mae rhieni'n teimlo na allant helpu gyda gwaith cartref. ('Ond fe allwn ni ei wneud')

Roedd pob disgybl yn gytûn y dylid gweithredu'r cynnig.